



RHIF YR YMCHWIL GYMDEITHASOL:

29/2018

DYDDIAD CYHOEDDI:

15/05/2018

# Dadansoddiad o ganlyniadau plant a phobl ifanc 4 i 5 mlynedd ar ôl Gorchymyn Gofal terfynol

## **Dadansoddiad o ganlyniadau plant a phobl ifanc 4 i 5 mlynedd ar ôl Gorchymyn Gofal terfynol**

Awduron: Katy Burch, Jackie Daru, a Vivien Taylor yn y Sefydliad  
Gofal Cyhoeddus, Prifysgol Oxford Brookes



Barn yr ymchwilydd yw'r hon a fynegir yn yr adroddiad, nid o angenrheidrwydd  
barn Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag:

Ian Jones

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 03000 250090

E-bost: [ian.jones006@llyw.cymru](mailto:ian.jones006@llyw.cymru)

## Cynnwys

|                       |    |
|-----------------------|----|
| Rhestr Termau .....   | 4  |
| 1. Rhagarweiniad..... | 13 |
| 2. Methodoleg.....    | 16 |
| 3. Canfyddiadau ..... | 23 |
| 4. Casgliadau.....    | 59 |
| 5. Argymhellion.....  | 62 |
| Adran Gyfeirio .....  | 63 |
| Atodiad A.....        | 65 |

## **Rhagair**

Mae gwella canlyniadau a chyfleoedd bywyd plant sydd wedi derbyn gofal yn flaenoriaeth allweddol i mi. Mae'r Llywodraeth hon wedi ymrwymo i sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn cael yr un cyfleoedd mewn bywyd â phlant eraill, a nodir hyn yn ein Rhaglen Lywodraethu Symud Cymru Ymlaen, ac yn ein strategaeth genedlaethol Ffyniant i Bawb.

Mae'r Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Wella Canlyniadau i Blant yn datblygu rhaglen waith arwyddocaol i helpu i leihau'n ddiogel nifer y plant sy'n cael eu rhoi mewn gofal, gwella canlyniadau i blant sydd eisoes yn derbyn gofal a darparu cymorth gwell i'r rheini sy'n gadael gofal i fod yn oedolion annibynnol. Bydd gwaith y Grŵp yn digwydd dros gyfnod y Cynulliad hwn ac mae'r ymchwil hon yn rhan allweddol o'i raglen waith, gan helpu i lenwi bylchau yn ein dealltwriaeth o hynt lleoliadau plant sy'n derbyn gofal.

Rwy'n croesawu cyhoeddi canfyddiadau'r astudiaeth hon. Bydd ei chwmpas, sy'n cynnwys hynt lleoliadau'r holl blant a gafodd Orchymyn Gofal terfynol yn 2012-13 ynghyd â dadansoddiad manwl o blant o bum awdurdod lleol yng Nghymru, yn helpu i ddarparu ffynhonnell gyfoethog o wybodaeth i'r Grŵp ac i gyfrannu at gyfeiriad ein polisi yng Nghymru.

Rwy'n falch o weld bod cymaint o blant a phobl ifanc sydd mewn gofal yng Nghymru yn gwneud yn dda, gyda thros dri chwarter o'r rheini a fu'n rhan o'r astudiaeth mewn lleoliad sefydlog. Mae'r astudiaeth yn nodi'r gwaith da sy'n cael ei wneud gan wasanaethau cymdeithasol plant a'u partneriaid addysg yng Nghymru i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl ar gyfer plant mewn gofal. Mae croeso bob amser i dystiolaeth o effaith gadarnhaol datblygiadau polisi presennol a diweddar er mwyn cefnogi canlyniadau gwell i blant sy'n derbyn gofal a'r rheini sy'n gadael gofal yng Nghymru.

Fodd bynnag, mae plant mewn gofal yng Nghymru yn dal i wynebu heriau sylweddol, yn enwedig o ran cefnogi plant sy'n delio ag effaith cam-drin a thrawma. Rhaid inni ddysgu a defnyddio'r canfyddiadau o'r gwaith hwn i helpu i sicrhau yr eir i'r afael ag anghenion iechyd a llesiant plant mewn ffordd therapiwtig a bod y ffocws yn parhau ar ddarparu lleoliadau hirdymor o ansawdd uchel a fydd yn helpu i ddiwallu eu hanghenion.

Rwy'n annog yr holl randdeiliaid, gan gynnwys y rheini ym maes addysg ac iechyd y mae eu gwaith yn cynnwys delio â phlant sy'n derbyn gofal yng Nghymru, i ddarllen yr astudiaeth ymchwil hon a defnyddio'r canfyddiadau i helpu i gefnogi canlyniadau gwell i blant sy'n derbyn gofal o'u lleoliadau gofal.

Hoffwn ddiolch i dîm ymchwil IPC am wneud y gwaith pwysig hwn, ac i'r awdurdodau lleol sydd wedi rhoi o'u hamser i gefnogi'r astudiaeth hon.

**Huw Irranca-Davies AC**  
**Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant**

## **Diolchiadau**

Hoffai'r Sefydliad Gofal Cyhoeddus ddiolch yn ddidwyll i'r bobl hynny a roddodd mor hael o'u hamser, yn enwedig y Penaethiaid Gwasanaethau Plant, Rheolwyr Perfformiad neu Ddata Gwasanaethau Plant, Gweithwyr Cymdeithasol, Rheolwyr Tîm a Swyddogion Adolygu Annibynnol a heb eu cyfraniadau a'u cymorth ni fyddai'r ymchwil hwn wedi bod yn bosibl.

Ariannwyd y gwaith gan Lywodraeth Cymru a'i gynorthwyo, gan gynnwys drwy nifer o sialensiau ymarferol, gan Ian Jones a'i dîm o swyddogion ymchwil yn ogystal â chydweithwyr o Cafcass Cymru a'r timoedd polisi perthnasol. Hoffen ni ddiolch am y cymorth hwn i bawb o Lywodraeth Cymru a gymerodd ran.

## Rhestr Termiau

| Acronym / Gair Allweddol   | Diffiniad                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       |
|----------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| ACE(au)                    | Profiad(au) andwyol plentyndod sy'n effeithio ar blant wrth iddyn nhw dyfu, er enghraifft cam-drin domestig, rhiant yn cam-drin sylweddau, salwch meddyliol rhiant.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |
| Plentyn/Plant mewn angen   | Bellach, ddim yn berthnasol yng Nghymru (ers Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014), mae'r term yn cyfeirio at blentyn nad oedd, cyn 2016 (a) yn debygol o gyrraedd neu gynnal safon iechyd rhesymol, neu gael y cyfle i gyrraedd neu gynnal safon iechyd rhesymol na datblygiad heb gymorth gwasanaethau a ddarperir gan yr awdurdod lleol; neu (b) andwyr ymhellach neu yn sylweddol ar ei iechyd neu ddatblygiad heb y gwasanaethau a ddarperir, neu'n (c) anabl (Adran 17 o Ddeddf Plant 1989, sy'n dal yn berthnasol yn Lloegr). |
| CAMHS                      | Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Glasoed.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     |
| Unigolyn sy'n gadael Gofal | Unigolyn oedd yn gyn blentyn yn derbyn gofal sydd wedi cyrraedd 18 oed ac un y mae gan yr awdurdod addysg gyfrifoldebau parhaus drosto/drosti.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  |
| Cynllun Gofal              | Bellach, yr enw arno ydy Cynllun Gofal a Chymorth yng Nghymru (ers Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014), mae Cynllun Gofal yn datgan pa wasanaethau a chymorth arall a ddarperir ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'u teulu (dirprwyol) i gyflawni set o ganlyniadau dymunol ar gyfer eu dyfodol.                                                                                                                                                                                                                                   |
| Achosion Gofal             | Trafodion llys ydy'r rhain a gyhoeddwyd gan Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdod Lleol lle gwnaed cais am Orchymyn Gofal neu Orchymyn Goruchwyllo o ran plentyn.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |
| EET (ACH)                  | (mewn) addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |
| Gorchymyn Gofal Terfynol   | Penderfyniad terfynol llys o ran cais am Orchymyn Gofal neu Oruchwyliaeth, yn aml yn cael ei ragflaenu gan Orchymyn(Orchymynion) Gofal Interim. Mae'r Gorchymyn Gofal terfynol yn breinio'r cyfrifoldeb rhiant dros blentyn i'r Awdurdod Lleol.                                                                                                                                                                                                                                                                                                 |
| Mewn Gofal                 | Term mwy llafar a ddefnyddir yn aml i ddisgrifio plant sy'n derbyn gofal a/neu blant y gwnaed Gorchymyn Gofal ar eu cyfer.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |
| Plentyn sy'n               | Plentyn y mae gan awdurdod lleol set o ddyletswyddau drosto/drosti gan                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          |

|                                    |                                                                                                                                                                                                                                                     |
|------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Derbyn Gofal                       | gynnwys yn arbennig darparu llety a gwasanaethau cymorth eraill i ddiogelu a hyrwyddo eu llesiant. Ceir y dyletswyddau hyn yn Rhan 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014,                                                    |
| Gofal gan Berthynas                | Gofal plant gan berthnasau neu gan ffrindiau agos i'r teulu.                                                                                                                                                                                        |
| NEET (NACH)                        | Nid (mewn) addysg, cyflogaeth na hyfforddiant).                                                                                                                                                                                                     |
| Cynllun Lleoli                     | Mae hwn yn rhan o'r cynllun cyffredinol ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal sy'n disgrifio'n benodol lle dylai breswyllo                                                                                                                             |
| PLO                                | Braslun o'r Gyfraith Gyhoeddus. Mae hwn yn datgan y dyletswyddau ac amserlenni y mae rhaid i awdurdodau lleol llynu wrthyn nhw pan fyddan nhw'n ystyried mynd ac yn mynd ag achos o flaen y llys i ofyn am Orchymyn Gofal neu Orchymyn Goruchwyllo. |
| Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig  | Dull cyfreithiol i gadarnhau ymrwymiad tymor hir rhwng ofalydd dirprwyol a phlentyn yn debyg i fabwysiadu ond heb y goblygiadau cyfreithiol llawn. Mae'r Gorchymyn yn rhoi gwell cyfrifoldeb rhiant dros blentyn i'r deiliad.                       |
| Methiant Lleoliad heb ei gynllunio | Pan na fydd lleoliad yn parhau cyhyd ag y bwriadwyd ac yn gorffen mewn modd heb fod yn unol â Chynllun Lleoli gweithredol y plentyn.                                                                                                                |
| 'Pan fydda i'n Barod'              | Cynllun a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2015 i baratoi awdurdodau lleol ar gyfer eu dyletswyddau newydd o ran trefniadau byw pobl ifanc dros 18 oed o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.                             |
| Trefniadau 'Pan fydda i'n Barod'   | Y term a ddefnyddir yng Nghymru am drefniadau lle mae person ifanc sy'n derbyn gofal maeth yn aros gyda'i gyn/chyn ofalydd maeth ar ôl 18 oed.                                                                                                      |

## **Crynodeb Gweithredol**

### **1. Rhagarweiniad**

- 1.1 Comisiynwyd yr astudiaeth hon gan Lywodraeth Cymru er mwyn ystyried:
- Teithiau lleoliad ar gyfer plant mewn gofal yng Nghymru a sut y mae'r rhain yn cymharu â'r canlyniadau roedd eu Cynllun Gofal yn ymgynraedd atyn nhw.
  - Ffactorau sy'n gysylltiedig â chanlyniadau lleoliad mwy cadarnhaol ar gyfer plant â Gorchymyn Gofal.
- 1.2 Mae'n darparu gwybodaeth fanwl, eang ei graddfa am blant gyda Gorchymynion Gofal terfynol a wnaed rhwng Ebrill 2012 a Mawrth 2013 y traciwyd eu teithiau gofal dros 4-5 mlynedd.
- 1.3 Roedd y dadansoddiad eang ei raddfa hwn yn cynnwys yr holl (1,076) blant a phobl ifanc gyda Gorchymyn Gofal terfynol a wnaed yng Nghymru yn ystod y cyfnod o 12 mis rhwng Ebrill 2012 i Fawrth 2013 gyda gwybodaeth sylfaenol am leoliadau yn dod o set ddata cyfredol awdurdodau lleol. Roedd 'is-sampl' llai yn cynnwys grŵp o blant gyda Gorchymyn Gofal terfynol yn 2012-2013 yn dod o bump ardal llywodraeth leol. Ar gyfer y cam hwn, cynhaliwyd dadansoddiad o ffeiliau achos (ffeiliau set ddata Gwaith Cymdeithasol) a chyfweliadau gyda Gweithiwr Cymdeithasol perthnasol neu Reolwr Tîm a Swyddog Adolygu Annibynnol.

### **2. Nodweddion y garfan**

- 2.1 Roedd bron i hanner y plant o dan bump oed ac roedd 64% yn rhan o grŵp sibling (brodyr a chwiorydd) ar yr adeg y gwnaed y Gorchymyn Gofal.
- 2.2 Er mai cyfran fechan (5%) o'r holl blant â Gorchymyn Gofal terfynol yn 2012-2013 a gofnodwyd yn swyddogol ag anabledd, mae dadansoddiad o'r is-grŵp yn awgrymu bod y gwir nifer yn debygol o fod llawer yn uwch – hyd at draean o blant wrth gynnwys anableddau o fân anawsterau dysgu hyd at anawsterau dysgu cymedrol, anhwylderau ar y sbectrwm awtistig a phlant â datganiad o anawsterau emosiynol ac ymddygiadol. Mae hyn yn golygu goblygiadau sylweddol i ystod eang o ganlyniadau plant mewn gofal, yn enwedig cyflawniad addysgol.
- 2.3 Er y cofnodwyd yn swyddogol bod 78% o'r holl garfan o 1,076 o blant angen gofal sylfaenol oherwydd camdriniaeth ac esgeulustod, cafodd y dadansoddiad manwl fod

bron yr holl blant wedi cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso cyn i'r Gorchymyn Gofal gael ei wneud. Roedd mynychder y profiadau andwyol y mae'n hysbys eu bod yn cynyddu risg o gamdriniaeth neu esgeulustod yn arbennig o uchel yn yr is-sampl hwn – 76% o rieni'r plant yn dioddef o broblemau cam-drin sylweddau. Roedd 68% wedi profi cam-drin domestig. Roedd gan 47% o blant riant â phroblemau iechyd meddwl.

- 2.4 Roedd gan 44% o blant yn yr is-sampl ddiagnosis o anhwylder ymlyniad neu broblemau cydnabyddedig yn gysylltiedig ag ymlyniad tua adeg y Gorchymyn Gofal terfynol a/neu ar y pwynt lle ceisiwyd lleoliad parhaol neu 'am byth'.
- 2.5 Roedd canran uchel o blant (43% o blant dros 5 yn yr is-sampl) eisoes yn arddangos anawsterau emosiynol ac ymddygiadol ar adeg y Gorchymyn Gofal terfynol.

### **3. Sefydlogrwydd y lleoliad a llwyddiant wrth sefydlu lleoliad parhaol ar gyfer y plant**

- 3.1 Roedd dros dri chwarter yr holl garfan o blant wedi profi lefel uchel o sefydlogrwydd o ran lleoliad – gan symud unwaith yn unig (46%) neu heb symud (30%) o leoliad o adeg y Gorchymyn Gofal llawn yn 2012-2013 tan 31 Mawrth 2017. Roedd hyn yn enwedig o wir am blant iau 0-4 oed neu 5-9 oed ar adeg y Gorchymyn Gofal. Roedd plant hŷn 10-15 oed yn fwy tebygol o symud lleoliad nifer o weithiau – ar gyfartaledd symud 2.17 gwaith.
- 3.2 Cafodd dadansoddiad o'r is-sampl mai'r cynllun cyffredinol mwyaf cyffredin ar gyfer plant ar adeg y Gorchymyn Gofal terfynol oedd gofal maeth hirdymor (42%) ac yna (6%), a gofal preswyl hirdymor (4%).
- 3.3 Mabwysiadwyd tua traean o blant (32% o'r holl garfan) ar ôl y Gorchymyn Gofal, a phlant iau yn bennaf oedd y rhain. Fodd bynnag, roedd hyd yn oed rhai o'r plant iau hyn oedd fel arfer yn hawdd eu lleoli, yn mynd yn fwy anodd i'w lleoli ar gyfer mabwysiadu pan gynlluniwyd iddyn nhw gael eu mabwysiadu gyda'u brodyr neu chwiorydd, neu i raddau llai os oedd ganddyn nhw anabledd. Roedd yr amser rhwng cychwyn gwneud Gorchymyn Gofal a chychwyn lleoliad mabwysiadu yn amrywio'n sylweddol rhwng 0 a 1,441 diwrnod, 262 diwrnod ar gyfartaledd.
- 3.4 Roedd plant yn yr is-sampl yr oedd Cynllun y llys wedi eu gosod mewn gofal maeth hirdymor yn llai tebygol o barhau'n sefydlog yn ystod y graddfeydd amser dymunol. Roedd hyn yn arbennig o wir os oedd ganddyn nhw hanes o gael eu cam-drin neu eu

hesgeuluso'n eithafol neu'n ddybryd, neu eu bod yn rhan o grŵp o frodyr a chwiorydd oedd yn mynd i gael gofal maeth gyda'i gilydd. Hefyd, ni allai cyfran sylweddol (33%) o leoliadau maeth hirdymor gael eu cynnal dros amser ac roedd angen o leiaf un lleoliad parhaol arall ar y plant dan sylw. Roedd plant gyda chynllun am ofal maeth hirdymor a fethodd yn y tymor byr yn debycach o brofi aml-newidiadau lleoliad wedi hynny.

- 3.5 Roedd plant yr is-sampl gyda chynlluniau llys ar gyfer eu lleoli gyda rhieni yn debygol iawn o gyflawni hyn yn y tymor byr. Fodd bynnag, yn y tymor canolig, ni chynhaliwyd nifer o'r lleoliadau hyn neu fe ddatblygodd y lleoliadau hynny'n fregus yn bennaf oherwydd na allai'r rhieni gynnal y gwelliannau yn eu ffordd o fyw ac o fagu plant.
- 3.6 Roedd pob lleoliadau ar gyfer plant yr is-sampl oedd gyda'r nod o fod yn rhai hirdymor gyda gofalwyr sy'n berthnasau wedi llwyddo yn y tymor byr, ond, yn y tymor canolig, methodd 29% naill ai oherwydd bod y plentyn wedi cael ei gam-drin yn gorfforol neu nad oedd y gofalwr sy'n berthynas yn deall anghenion y plentyn.
- 3.7 Effeithiodd methiant lleoliadau na chynlluniwyd ar 33% o blant yn yr is-sampl. Roedd llawer o'r methiannau hyn yn cynnwys cyfuniad o ffactorau'r plentyn a'r gofalwr. Fodd bynnag, mewn o leiaf 14 o 60 achos, dim ond ffactorau gofalwyr oedd yn ymddangos yn arwyddocaol.

#### **4. Canlyniadau ehangach ar gyfer plant a'r ffactorau sy'n gysylltiedig â'r rhain**

- 4.1 Ystyriwyd bod gan 71% o blant ganlyniadau cyffredinol positif ar ôl 4-5 mlynedd. Roedd canlyniadau 19% yn rhai cymysg (cymysgedd o rhai cadarnhaol a rhai negyddol). Roedd canlyniadau 10% yn gyffredinol negyddol.
- 4.2 Cyflawnwyd canlyniadau positif â chyfran uchel o blant yn yr is-sampl o ran amgylchedd yn eu cartref, cyfathrebu ac ymlyniadau; addysg; iechyd corfforol; iechyd rhywiol (lle bo'n berthnasol) ac absenoldeb troseddu.
- 4.3 Fodd bynnag, roedd gan gyfran sylweddol o blant yn yr is-sampl anghenion llesiant a iechyd emosiynol parhaus.
- 4.4 Ar wahân i blant sy'n cael eu mabwysiadu, ffactor allweddol canlyniadau positif oedd ansawdd y gofal yn y lleoliad maeth, y gofal gyda pherthynas neu y lleoliad preswyl. Nodweddion canlyniadau positif lleoliadau oedd gofalwyr sy'n sefydlog, cynnes a

meithringar; ymrwymedig (i anghenion arbennig y plentyn hwn); yn rhagweithio i gynorthwyo anghenion addysgol, cymdeithasol, iechyd a llesiant y plentyn; ac yn cynnwys y plentyn o fewn y teulu ehangach (trin y plentyn fel plentyn y teulu).

4.5 Ymhlith y ffactorau eraill sy'n gysylltiedig â chanlyniadau positif yn yr is-sampl mae:

- Oed iau y plentyn ar adeg y Gorchymyn Gofal terfynol (ac yn aml, felly, gorfod wynebu llai o gamdriniaeth neu esgeulustod).
- Cymorth da neu ragorol yn y cartref/ ysgol (yn cynnwys mynychu a chyflawni).
- Gallu'r gofalydd i hwyluso cyswllt buddiol gyda theulu estynedig naturiol y plentyn.
- Argaeledd cymorth therapiwtig a ddarperir ar gam cynnar problem sy'n codi neu mewn ymateb i anghenion neu brofiadau hysbys plentyn ar ei fynediad i ofal, er enghraifft mewn perthynas â materion ymlyniad, trawma neu gamdriniaeth rywiol.
- Annog y plentyn i gymryd rhan mewn gweithgareddau positif yn rheolaidd .
- Cymorth cyson Gweithiwr Cymdeithasol.
- Y plentyn yn cael ei leoli ar ei ben ei hun neu gyda siblingiaid, fel bo'n briodol, i ddiwallu ei anghenion.

4.6 Roedd canlyniadau negyddol plant yn yr is-sampl yn gysylltiedig â'r canlynol:

- Oed hŷn y plentyn ar adeg y Gorchymyn Gofal terfynol.
- Y plentyn yn cael mwy o brofiadau sylweddol o gamdriniaeth dybryd a/neu barhaol neu esgeulustod.
- Plant yn arddangos ymddygiadau mwy heriol yn codi o'u profiadau o gam-drin, gan gynnwys er enghraifft: ymddygiad rhywiol, baeddu neu eniwresis (gwlychu'r gwely) .
- Plant y methodd eu Cynllun Lleoli (ar gyfer lleoliad parhaol) ac a brofodd cyfres o leoliadau aflwyddiannus yn dilyn lleoliad cynnar aflwyddiannus neu leoliad camdriniol cychwynnol neu leoliad amhriodol nad oedd yn diwallu anghenion sylfaenol y plentyn.
- Mynediad llai mynych ac ymatebol i gymorth penodol ar gyfer anghenion iechyd emosiynol a llesiant.
- Cyswllt parhaus andwyol gyda rhiant biolegol.

- 4.7 Gallai gofal dirprwyol o ansawdd da liniaru ffactorau risg eraill ar gyfer canlyniadau negyddol yn effeithiol gan gynnwys profiadau blaenorol o gamdriniaeth neu esgeulustod eithafol neu ddybryd. Fodd bynnag, gallai ymlyniad heb ei ddatrys a/neu cysylltiedig ag anghenion iechyd emosiynol a llesiant heb eu datrys hefyd raddol danseilio canlyniadau positif eraill.
- 4.8 Gofynnodd yr astudiaeth hon hefyd gwestiynau ehangach ynglŷn â'r system gyfan i'r 120 o Weithwyr Cymdeithasol, Rheolwyr Tîm a Swyddogion Adolygu Annibynnol a gafodd eu cyfweild am blant unigol yn yr is-sampl. Nododd y Gweithwyr eu bod fwyaf pryderus am y diffyg dewis o leoliadau, yn enwedig lleoliadau gofal maeth ar gyfer plant gyda Gorchymyn Gofal. Roedden nhw hefyd yn bryderus am ddiffyg cymorth ymddangosiadol ar gyfer anghenion emosiynol iechyd a llesiant plant a'r amserlen 26 wythnos ofynnol ar gyfer achosion llys o ran rhai dulliau mwy cymhleth o ddod i benderfyniad. Fodd bynnag, roedd y mwyafrif o weithwyr hefyd yn meddwl bod yr amserlen 26 wythnos yn gyffredinol yn cael effaith bositif ar yr holl system yn arbennig i atal unrhyw oedi.

## **5. Casgliadau'r astudiaeth**

- 5.1 Mae llawer o blant a phobl ifanc yn gwneud yn dda mewn gofal yng Nghymru, gan gynnwys mewn rhai amgylchiadau lle nad yw'n bosibl i gyflawni'r Cynllun Lleoli a amlinellwyd i'r llys ar adeg y Gorchymyn Gofal terfynol. Mae canlyniadau cymharol bositif yn drawiadol iawn o ran canlyniadau addysgol, cymdeithasol, corfforol a iechyd rhywiol a gyflawnwyd gyda chymorth gofalcwyr, Gweithwyr Cymdeithasol, ysgolion a gwasanaethau cymorth eraill.
- 5.2 Mae'r astudiaeth hefyd yn nodi rhai sialensiau sylweddol ar gyfer plant mewn gofal yng Nghymru, yn enwedig o ran:
- Eu cysylltiad tebygol â chyfuniad gwenwynig o drawma a helbulon plentyndod cynnar mewn patrymau ymlyniad cynnar sy'n effeithio ar ansawdd unrhyw berthynas wedi hynny a gallu'r plentyn i ffurfio ymlyniadau gyda rhieni dirprwyol.
  - Iechyd meddwl a llesiant plant – yn enwedig o ran materion sydd yn debygol iawn o godi i lawer sy'n cael profiadau o drawma, gan gynnwys drwy gamdriniaeth ac esgeulustod; anawsterau ymlyniad a phrofedigaethau/galar yn ystod plentyndod

cynharach. Gallai anghenion iechyd emosiynol a llesiant parhaol danseilio canlyniadau positif (megis mewn addysg) a/neu leoliadau mewn gofal.

- Llwyddo i sicrhau cartref parhaol o ansawdd da ar gyfer plant gyda'u brodyr a'i chwiorydd, ac ar gyfer plant hŷn a phobl ifanc sydd wedi cael eu cam-drin yn barhaus neu eu hesgeuluso ac sydd ag ymddygiadau a ystyrir yn fwy heriol i ofalwyr.
- Cynnal lleoliadau diogel, meithringar, 'am byth' ar gyfer plant – yn enwedig lleoliadau gofal maeth neu ofal gan berthynas lle mae gofalwyr wedi ymrwymo ar y cychwyn i ddarparu cartref hirdymor. Mae ymchwil blaenorol wedi nodi'r 'lludded tosturi' gall gofalwyr deimlo weithiau o ganlyniad i ofalu am blant gydag anghenion cymhleth yn ddyddiol a allai arwain at fethu â sefydlu perthynas iach gyda'r plentyn (Ottaway et al., 2016).

## **6. Argymhellion yr astudiaeth**

6.1 Mae'r astudiaeth hon yn cefnogi yn gadarn ac yn cael peth o'r dystiolaeth o effaith positif datblygiadau presennol a diweddar polisi a luniwyd i wella canlyniadau ar gyfer plant mewn gofal a phlant sy'n gadael gofal gan gynnwys cymorth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ym maes addysg.

6.2 Mae hefyd yn awgrymu bod angen gwelliannau pellach er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Bod anawsterau ymlyniad plant sy'n hysbys neu'n debygol yn cael eu cydnabod yn fwy ffurfiol o ran comisiynu a chyflenwi lleoliad(au) gofal dirprwyol a chymorth ehangach ar gyfer plant mewn gofal. Mae'n annhebygol y byddai'r math hwn o gymorth yn cael ei ddarparu o fewn gwasanaethau arbenigol mwy traddodiadol megis Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed.
- Bod anghenion iechyd emosiynol a llesiant plant mewn gofal yn cael eu trin mewn modd mwy rhagweithiol, gan gydnabod y bydd angen rhyw fath o gymorth therapiwtig ar lawer o'r plant er mwyn iddyn nhw wella o'u profiadau trawmatig, eu profiad o brofedigaeth a gwahaniad ac i ddelio ag anawsterau ymlyniad, boed hyn drwy leoliad therapiwtig a/neu drwy waith uniongyrchol gyda'r plentyn.

- Bod cynnydd yn nifer o leoliadau gofal iechyd emosiynol maethu uchel eu hansawdd sydd ar gael, a fyddai yn eu tro yn sicrhau lleoliadau amserol 'am byth' (yn cynnwys rhai am y tro cyntaf) sydd yn fwy tebygol o ddiwallu eu hanghenion.
- Bod plant gyda rhyw ffurf o anabledd, yn enwedig yr anableddau hynny heb gael cydnabyddiaeth yn yr ystadegau swyddogol, ond serch hynny, yn debygol o effeithio ar eu datblygiad cymdeithasol ac addysgol, yn cael eu cynorthwyo mewn modd rhagweithiol.
- Bod plant sy'n dychwelyd adref neu'n mynd i fyw gyda pherthnasau yn cael eu diogelu rhag cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso a bod y plant yn y lleoliadau hyn yn ogystal â'r teuluoedd yn darparu cymorth uchel ei lefel ar eu cyfer er mwyn iddyn nhw gyflawni canlyniadau da.

## 1. Rhagarweiniad

1.1 Mae llywodraethau hyd a lled y DU, gan gynnwys Cymru, yn pryderu am ganlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, yn enwedig gan fod y niferoedd wedi cynyddu, gan roi pwysau ar y system gyfan a luniwyd i ddarparu neu gynorthwyo gofal dirprwyol. Er enghraifft, mae StatsWales (2017) wedi datgan bod cynnydd o 5% yng Nghymru yn nifer y plant sy'n derbyn gofal rhwng Mawrth 2016 (5,665) a Mawrth 2017 (5,955).

1.2 Mae llawer o ymchwil yn y DU dros y 25 mlynedd diwethaf wedi awgrymu bod canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn gyffredinol yn llai ffafriol nag ar gyfer plant eraill tu allan i'r system ofal (Gypen et al., 2017), gan gynnwys eu cysylltiad â'u:

- Iechyd meddwl a llesiant emosiynol.
- Cyflawniad addysgol.
- Tuedd i ddioddef iechyd corfforol gwael a beichiogrwydd yn ifanc.
- Anfantais economaidd a chymdeithasol.
- Ymwneud â throseddau neu gam-drin sylweddau fel plant ac fel oedolion.

(Meltzer et al, 2003b; McAuley et al, 2006; Biehal et al, 1995)

Fodd bynnag, mae rhai astudiaethau diweddar wedi herio'r persbectif cyffredinol negyddol hwn. Er enghraifft, mae Wade, Biehal a Sinclair (2010) yn awgrymu bod llawer o blant mewn gwirionedd yn gwneud yn gymharol dda mewn gofal, yn enwedig o'i gymharu â'r rhai o gefndiroedd tebyg sy'n dychwelyd i fyw gartref. Mae ymchwil Sebba et al. (2015) yn awgrymu bod plant sydd wedi derbyn gofal am o leiaf 12 mis yn gwneud yn well yn TGAU na phlant mewn angen heb fod yn derbyn gofal.

1.3 Mae sefydlogrwydd lleoliad yn ymddangos yn ddangosydd cadarn os nad yr unig un, o well canlyniadau ar gyfer plant, ac i'r gwrthwyneb cysylltir ansefydlogrwydd lleoliad â chanlyniadau gwaeth (Stein, 2005) a Baginsky et al, 2017). Mae dylanwadau eraill ar ganlyniadau plentyn yn debygol o gynnwys cyfuniad o faterion yn ymwneud â'r plentyn a'r teulu megis profiadau o gamdriniaeth a/neu ymlyniad annymunol gyda rhieni biolegol a all danseilio perthynas gyda gofalwyr dirprwyol wedi hynny (Howe, 2005; Lindheim and Dozier, 2007), a materion ym ymwneud â systemau megis amseru symud plentyn o amgylchedd cartref sy'n ymosodol ac esgeulus ac i mewn i ofal (Wilkinson et al, 2017).

1.4 Yn y cyd-destun hwn sefydlwyd Grŵp Llywio **Gwella Canlyniadau ar gyfer Plant** ym Mis Hydref 2015 gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo datblygu dull cenedlaethol o

fynd ati i wella canlyniadau plant sy'n derbyn gofal. Yn dilyn etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai 2016, uwchraddiwyd y grŵp i fod yn Grŵp Ymgynghorol Gweinidogaethol dan arweiniad David Melding AC. Mae'r Grŵp Ymgynghorol Gweinidogaethol yn mynd i ddelio â rhaglen eang o waith gan gynnwys prosiectau peilot, datblygiadau polisi a meysydd ymchwil i lenwi bylchau yn ein dealltwriaeth gyfredol o'r hyn sy'n digwydd nesaf i blant sy'n derbyn gofal, gan gynnwys yr astudiaeth hon sy'n ceisio ystyried y canlynol:

- Teithiau lleoliad ar gyfer plant mewn gofal yng Nghymru a sut mae'r rhain yn cymharu dros dymor canolig, cyfnod o (4-5 Mlynedd) ynghyd â'r canlyniadau yr anelir atyn nhw ac sy'n cael eu hamlinellu yn y Cynlluniau Gofal gwreiddiol a gyflwynwyd i'r llys pan ganiateir Gorchymyn Gofal terfynol.
- Ffactorau sy'n gysylltiedig â chanlyniadau lleoliad mwy cadarnhaol dros yr un cyfnod o amser.

Y rhesymeg dros gyfnod o 4-5 mlynedd oedd y byddai'r set ddata yn gymharol gyfredol o ran amser (er mwyn adlewyrchu ymarfer cyfredol) ond byddai'n caniatáu digon o amser i fynd heibio er mwyn dadansoddi ac adrodd ar ganlyniadau. Y bwriad yw y bydd yr astudiaeth hon yn cyfrannu at welliannau pellach i ansawdd a sefydlogrwydd lleoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn y dyfodol.

1.5 Er bod fframwaith cyffredinol statudol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac yn amodol ar Orchymyn Gofal Terfynol wedi parhau'r un fath yn y pontio rhwng Deddf Plant 1989 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, cafwyd nifer o ddatblygiadau polisi perthnasol i gyfnod amser yr astudiaeth hon (2012-2017), gan gynnwys yn arbennig:

- Cyflwyno Braslun diwygiedig o'r Gyfraith Gyhoeddus yn Lloegr a Chymru ac achosion gofal yn targedu graddfeydd amser o Ebrill 2014 (hefyd mae rhai o'r rhain hefyd wedi'u treialu mewn rhannau o Gymru ers Medi 2013).
- Strategaeth<sup>1</sup> a lansiwyd yn Ionawr 2016 i gynorthwyo uchelgeisiau a chyflawniadau addysgol gwell ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn cynnwys trwy weithio gyda gofalwyr maeth; a chyd-atebolrwydd ar draws Lywodraeth Cymru a Llywodraeth leol gydag ysgolion.

---

<sup>1</sup> <http://llyw.cymru/topics/educationandskills/schoolshome/deprivation/educational-attainment-of-looked-after-children/?lang=cy>

- Trefniadau ‘Pan fydda i’n Barod’ yn cael eu sefydlu ar hyd Cymru yn 2015 i gynorthwyo plant sy’n derbyn gofal aros gyda’u gofalwyr maeth ar ôl iddyn nhw gyrraedd 18 oed, fel rhai sy’n gadael gofal.
- Mae gofal cymdeithasol yn un o bum maes blaenoriaeth *Ffyniant I Bawb*<sup>2</sup> gyda chymau gweithredu i godi cyflawniad addysgol a gwella cyfleoedd bywyd plant mewn gofal, mabwysiadu dull plentyn-ganolog o fynd drwy gydweithio gydag addysg, y gwasanaethau cymdeithasol ac eraill.
- Mae Rhaglen y Llywodraeth, *Symud Cymru Ymlaen* hefyd yn ymrwymo i “ystyried y dulliau o sicrhau bod plant sy’n derbyn gofal yn cael yr un cyfleoedd bywyd â phlant eraill ac, os oes angen, gwella’r ffordd y maen nhw’n derbyn gofal”.

1.6 Mae gweddill yr adroddiad hwn yn cynnwys adrannau yn amlinellu methodoleg yr ymchwil ar gyfer yr astudiaeth bwysig a’r canfyddiadau, a chasgliadau ac argymhellion yr awduron ar gyfer Llywodraeth Cymru a’r Sector.

---

<sup>2</sup> <https://llyw.cymru/docs/strategies/170919-prosperity-for-all-cy.pdf>

## 2. Methodoleg

2.1 Mae'r dadansoddiad hwn o'r canlyniadau ar gyfer plant â Gorchymyn Gofal terfynol wedi cynnwys dulliau meintiol ac ansoddol o fynd at ddau brif gam yr astudiaeth, fel a ganlyn:

**Cam Un:** Dadansoddiad eang ei raddfa o daflwybrau lleoliad ar gyfer yr holl blant yng Nghymru â Gorchymyn Gofal Terfynol yn ystod y flwyddyn ariannol 2012-2013 (nifer cyffredinol y sampl: 1,076).

**Cam Dau:** Dadansoddiad mwy manwl o hanes y plant, cynlluniau gofal, lleoliadau, cymorth a chanlyniadau ar gyfer is-sampl yn fras gynrychiadol o 79 o blant o 5 ardal awdurdod lleol a dynnwyd o'r sampl cyffredinol ac wedi llwyddo i wneud hynny drwy gyfuniad o ddadansoddiad o ffeiliau achos a chyfweliadau gyda Gweithwyr Cymdeithasol, Rheolwyr Tîm a Swyddogion Adolygu Annibynnol. Dewiswyd yr awdurdodau hyn gan y tîm ymchwil er mwyn sicrhau rhychwant eang o blant o wahanol gefndiroedd daearyddol ac economaidd-gymdeithasol.

2.2 **Ar gyfer y dadansoddiad eang ei raddfa o daflwybrau lleoliad**, gofynnwyd i bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru i ddarparu'r wybodaeth ganlynol (drwy drosglwyddo data diogel wedi'i amgryptio) am yr holl blant â Gorchymyn Gofal rhwng 1 Ebrill 2012 a 31 Mawrth 2013:

- Manylion sylfaenol dienw am bob plentyn: rhyw, dyddiad geni, ethnigrwydd, a nodwyd bod ganddyn nhw anabledd ac a oedden nhw mewn grŵp o frodyr a chwiorydd o ran y Gorchymyn Gofal terfynol.
- Gwybodaeth am gychwyn a gorffen lleoliadau (a'u math a'r rheswm dros gychwyn / terfynu lleoliadau gan ystyried y codau a ddefnyddiwyd yng Nghyfrifiad blynyddol Plant Sy'n derbyn Gofal) o adeg caniatáu'r Gorchymyn Gofal terfynol hyd at ac yn cynnwys eu lleoli ar 31 Mawrth 2017.'
- Gwybodaeth am eu statws cyfreithiol ac unrhyw newidiadau i'w statws cyfreithiol rhwng gwneud y Gorchymyn Gofal terfynol a 31 Mawrth 2017.

Casglwyd y data am y plant a'u lleoliadau gan yr awdurdodau lleol gan ddefnyddio templed taenlen a ddarparwyd gan IPC. Profwyd cynllun taenlen wreiddiol gan un awdurdod lleol ac yna ei haddasu cyn ei dosbarthu i Benaethiaid Gwasanaeth ac arweinwyr perfformiad. Er mwyn hwyluso casglu'r data, gofynnwyd i awdurdodau lleol

ddarparu data tebyg ac i ddefnyddio'r un codau ag sydd yng Nghyfrifiad Plant mewn Angen. Hefyd, ar eu cyfer darparwyd dynodwyr unigryw Cafcass Cymru a manylion sylfaenol y plant oedd Cafcass Cymru yn eu cadw i'w helpu i enwi'r garfan, a gofynnwyd iddyn nhw ddefnyddio'r dynodwr hwn ar yr hyn roedden nhw'n ei anfon

- 2.3 Ar y cychwyn cyflwynodd awdurdodau lleol ddata i Lywodraeth Cymru drwy ddefnyddio system ddiogel 'Afon'. Wedi hynny, at ddibenion y prosiect hwn, cafodd IPC yr hawl i weld y data oedd gan Lywodraeth Cymru.
- 2.4 Derbyniwyd data am blant â Gorchymyn Gofal terfynol yn ystod y flwyddyn ariannol 2012-13 gan bob un o'r 22 awdurdod lleol yn ystod y cyfnod rhwng Mai a Medi 2017. Drwy gydol y cyfnod hwn roedd angen i ymchwilwyr wirio data sylweddol a gwneud gwaith sylweddol yn glanhau data er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei gasglu'n gywir a'i gyflwyno'n gyson. Ymhlith y materion arbennig roedd y canlynol:
- Anghysondebau sylweddol rhwng cofnodion Cafcass Cymru a rhai'r awdurdod lleol am blant oedd wedi cael Gorchymyn Gofal terfynol yn ystod y 12 mis perthnasol.
  - Y modd mae awdurdodau lleol yn cofnodi cyfnodau lleoli pan ganiateir Gorchymyn Gofal terfynol a Gorchymyn Lleoli (ar gyfer mabwysiadu) ar yr un diwrnod. Mae canllawiau Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal yn gofyn i awdurdodau lleol anwybyddu'r Gorchymyn Gofal terfynol pan fydd hyn yn digwydd ac i gofnodi'r Gorchymyn Lleoli dim ond ar gyfer eu cyfrifiad. Ar gyfer yr ymarfer hwn, roedd hyn yn golygu bod nifer o awdurdodau lleol ar y cychwyn wedi anwybyddu plant oedd wedi cael Gorchymyn Gofal terfynol a Gorchymyn Lleoli ar yr un diwrnod.

Cafodd y ddau fater eu datrys drwy'r glanhau cychwynnol fu ar y data a thrwy ymdrechion penderfynol yr ymchwilwyr a swyddogion yr awdurdodau lleol yn cydweithio i sicrhau bod y set derfynol o gofnodion yn darparu darlun cywir o'r nifer o blant â Gorchymyn Gofal terfynol yn ystod y cyfnod o 12 mis, statws cyfreithiol cyfnewidiol pob plentyn a'r lleoliadau roedden nhw wedi'u cael hyd at 31 Mawrth 2017.

- 2.5 Maint y garfan lawn oedd 1,076 o blant â Gorchymyn Gofal terfynol yng Nghymru yn ystod y cyfnod o 12 mis rhwng Ebrill 2012 a Mawrth 2013, sef sylweddol yn fwy na a ragwelwyd.

## 2.6 Ar gyfer y dadansoddiad manwl o fewn 5 ardal awdurdod lleol:

- Gyda chaniatâd y Penaethiaid Gwasanaethau Plant perthnasol, archwiliwyd cyfanswm o 79 o ffeiliau achos y Gwasanaethau Cymdeithasol gan ymchwilyr 'in situ' mewn adrannau awdurdodau lleol rhwng Gorffennaf ac Awst 2017, tua 4-5 mlynedd ar ôl i'r Gorchmynion Gofal terfynol gael eu gwneud. Archwiliwyd ystod o rhwng 15 ac 17 o ffeiliau o fewn pob un o'r 5 ardal.
- Roedd y sampl cyffredinol o 79 yn fwy na'r nifer darged ar gyfer y ffrâm sampl sef 75. Ar y cyfan, roedd y sampl yn gynrychiolaeth dda o'r cyfan o'r plant â Gorchymyn Gofal terfynol ledled Gymru yn 2012-13 o ran ethnigrwydd (roedd 96% yn Cymreig / Prydeinig Gwyn); rhyw (roedd 46% yn fechgyn a 54% yn ferched); ac oed (32% yn 1-4 oed, 32% yn 5-9 oed, 35% yn 10-15 oed ac 1% yn 16-17 oed) y plant. Roedd y sampl yn cynnwys 27 o blant (34%) oedd yn unig blentyn y teulu ac roedd 52 (66%) yn rhan o grŵp o frodyr a chwiorydd â Gorchymyn Gofal terfynol wedi'i ganiatáu ar yr un pryd.
- Dewiswyd y plant o restrau dienw o blant â Gorchymyn Gofal terfynol yn ystod 2012-2013 a ddarparwyd ar gyfer IPC gan bob un o ardaloedd yr awdurdod lleol. Cawson nhw eu trefnu yn haenau oed a rhyw ar draws ardaloedd yr awdurdod lleol ac yna eu dewis ar hap.
- Archwiliwyd y ffeiliau achos er mwyn canfod y canlynol: nodweddion allweddol gan gynnwys rhyw, ethnigrwydd, anabledd ac anghenion arbennig; hanes y plentyn ac ymglymiad y teulu ehangach â'r Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol hyd at wneud y Gorchymyn Gofal terfynol neu'r adeg mynd i mewn i ofal, pa un bynnag ddaeth gyntaf; y rhesymeg dros y Gorchymyn Gofal terfynol; y cynllun a gyflwynwyd i'r Llys yn ystod gwrandawriad y Gorchymyn Gofal terfynol; hanes y lleoli gan gynnwys a fethodd lleoliadau a sut oedden nhw wedi methu; a gwybodaeth o gofnodion am gynnydd a chanlyniadau'r plentyn mewn Gofal gan gynnwys cyfeirio at feysydd allweddol o ddiddordeb – teulu, addysg, cymdeithasol, iechyd corfforol, iechyd rhywiol, iechyd emosiynol ac ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol. Ni chafodd ffeiliau mabwysiadu'r plentyn eu harchwilio.

Datblygwyd y fframwaith samplo gan ystyried y sail tystiolaeth sydd eisoes yn bodoli a'r cwestiynau allweddol ar y cam hwn o'r astudiaeth a oedd yn cynnwys y canlynol, yn ychwanegol at y cwestiynau cyffredinol ar gyfer yr astudiaeth:

*Beth ydy'r materion sy'n arwain at blant yn dod i mewn i ofal gan gynnwys yn ôl oedran?*

*I ba raddau y llwyddwyd i gael lleoliadau sefydlog yn dilyn trafodion cyfraith gyhoeddus o ystyried y gwahanol fathau o leoliadau?*

*Beth ydy'r ffactorau allweddol sy'n effeithio ar sefydlogrwydd lleoliad a chanlyniadau yn fwy cyffredinol?*

*Beth ydy dylanwad Swyddogion Adolygu Annibynnol wrth oruchwylio gweithredu Cynlluniau Gofal llys?*

*Pa welliannau y gellid eu gwneud o ran llwybr critigol ar gyfer plant ar ôl achosion llys?*

2.7 O ran pob plentyn, cynorthwyodd y 5 awdurdod lleol ymchwilwyr IPC i gysylltu gyda a chynnal cyfweiliad lled strwythuredig gyda Gweithiwr Cymdeithasol yr achos (neu, os nad yw ar gael, y Rheolwr Tîm perthnasol) a'r Swyddog Adolygu Annibynnol(IRO). Nod y cyfweiliadau oedd ystyried y canlynol:

- Eu dealltwriaeth o anghenion y plentyn dan sylw.
- Eu barn am y rhesymau dros sefydlogrwydd neu fethiant lleoliadau unigol a brofwyd gan y plentyn.
- Eu barn ar i ba raddau wnaeth y plentyn gyflawni canlyniadau positif, negyddol neu gymysg yn gyffredinol pan oedd mewn gofal neu fel un yn gadael gofal, os yw'n berthnasol.
- Eu barn am y ffactor(au) allweddol sy'n effeithio ar y canlyniadau cyffredinol hyn.
- Yn fwy cyffredinol, yr awdurdod lleol, ffactorau llys a'r system gyfan yn effeithio ar ganlyniadau ar gyfer plant â Gorchymyn Gofal terfynol.

2.8 Llwyddodd IPC i gynnal o leiaf un cyfweiliad o ran un plentyn mewn 69 o 79 o achosion (87%). Yn y rhan fwyaf o achosion cynhaliwyd cyfweiliad gyda'r Gweithiwr Cymdeithasol neu'r Rheolwr Tîm a'r Swyddog Adolygu Annibynnol. Cynhaliwyd

cyfanswm o gyfweiliadau yn cynnwys: 57 gyda Swyddogion Adolygu Annibynnol, 33 gyda'r Rheolwr Tîm a 30 gyda Gweithiwr Cymdeithasol. Ni recordiwyd y cyfweiliadau, gwnaeth yr ymchwilydd oedd yn cyfweld nodiadau manwl a helaeth a chofnodi ateb i bob cwestiwn â llaw.

2.9 Yna, rhannwyd y canfyddiadau o ddadansoddiad o'r ffeiliau achos a'r cyfweiliadau gyda gweithwyr cymdeithasol, rheolwyr tîm a Swyddogion Adolygu Annibynnol yn dair rhan er mwyn cynnal y dadansoddiad terfynol. Mewn nifer o achosion, roedd y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod y dadansoddiad o ffeiliau achos a'r cyfweiliadau yn awgrymu canfyddiadau tebyg iawn am y canlyniadau ar gyfer y plentyn a'r ffactorau allweddol sy'n effeithio ar y rhain. Mewn achosion lle nad oedd cymaint o gydgyfeirio o ran dystiolaeth, archwiliodd yr ymchwilydd yr ymateb a'r rhesymeg drosto er mwyn canfod y canfyddiad cyffredinol mwyaf priodol. Er enghraifft, os oedd gan Weithiwr Cymdeithasol neu Swyddog Adolygu Annibynnol wybodaeth ddibynadwy diweddar am ganlyniadau plentyn oedd yn wahanol i ddadansoddiad o'r ffeil achos, defnyddiwyd y wybodaeth ddiweddaraf yn y dadansoddiad terfynol. Os oedd y Swyddog Adolygu Annibynnol a'r dadansoddiad o'r ffeil achos yn cytuno, diystyrwyd barn Gweithiwr Cymdeithasol a fyddai yn aml ond ychydig yn wahanol.

## 2.10 **Ystyriaethau moesegol ar gyfer yr astudiaeth**

2.11 Cafodd yr ystyriaethau moesegol allweddol ar gyfer yr astudiaeth, o ran y plant â Gorchymyn Gofal yn y garfan gyffredinol a'r is-sampl y tynnwyd y dystiolaeth ohonynt nhw, eu gosod. O ran y garfan gyffredinol, doedd ymchwilydd ddim yn gallu gweld unrhyw ddata personol ar wahân i oed, rhyw, dyddiad y Gorchymyn Gofal, ac unrhyw symud i leoliadau eraill. Roedd yr holl ddata yn ddiennw: gadawyd allan enwau'r plant, cyfeiriadau ac unrhyw wybodaeth a allai arwain i'w hadnabod. Mewn gwirionedd, yr un oedd y data mwy neu lai â'r hyn a gynhyrchir yn flynyddol gan awdurdodau lleol i'w anfon at Lywodraeth Cymru am y boblogaeth sy'n derbyn gofal.

2.12 O ran yr is-sampl o 79 o blant, rhoddodd Penaethiaid Gwasanaethau Plant ymhob un o'r pump ardal llywodraeth leol ganiatâd gwybodus i'r plentyn gymryd rhan yn yr astudiaeth, gan gynnwys caniatâd i archwilio ffeiliau achos Gweithiwr Cymdeithasol (ac eithrio unrhyw ffeiliau achos mabwysiadu) ac i gynnal cyfweiliadau gyda Gweithiwr Cymdeithasol y plentyn a Swyddog Adolygu Annibynnol. Mae'r caniatâd hwn yr un fath â bod gan yr awdurdod lleol gyfrifoldeb rhiant dros bob plentyn â

Gorchymyn Gofal llawn. Fodd bynnag, cymerodd yr ymchwilyr oedd yn cynnal y gwaith maes ar gyfer yr astudiaeth hon ofal mawr ychwanegol er mwyn sicrhau na recordiwyd unrhyw wybodaeth a allai, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, enwi plentyn unigol neu'r teulu. Ni chofnodwyd unrhyw enw na chyfeiriad, dim ond rhif ffeil achos er mwyn sicrhau y gellid olrhain pob plentyn yn ôl i'r sampl cyffredinol.

## 2.13 **Cyfyngiadau'r astudiaeth**

2.14 Y prif gyfyngiad o ran y data a gasglwyd ar gyfer yr holl garfan (1,076) oedd nad oedd gan ymchwilyr hawl i gael gweld canlyniad cyffredinol y lleoliad a gynlluniwyd ar gyfer pob plentyn ac a gyflwynwyd i'r llys ar adeg y Gorchymyn Gofal terfynol. Y rheswm am hyn oedd nad oedd y data disgwylidig gwreiddiol ar gael gan Cafcass Cymru. Felly, doedd ymchwilyr ddim yn gallu canfod, o ran y garfan gyfan, y gyfran o blant gafodd ganlyniad dymunol lleoliad drwyddi draw neu na chyflawnwyd hyn neu a gyflawnwyd yn rhannol.

2.15 O ran y garfan lai a nodwyd ar gyfer dadansoddiad mwy manwl:

- Fel y ragwelwyd, doedd maint y sampl (n: 79) ddim digon mawr i alluogi dod i gasgliadau ystadegol, yn enwedig mewn is-grŵp. Felly, er bod y casgliadau i raddau helaeth yn cynrychioli'r cyfan, rhaid bod yn ofalus wrth eu cyffredinoli tu hwnt i'r is-grŵp.
- Er y gellid rhannu casgliadau o'r dadansoddiad ffeil achos a'r cyfweiliadau gyda Gweithiwr Cymdeithasol/ Rheolwr Tîm a Swyddog Adolygu Annibynnol y plentyn yn dair rhan yn weddol effeithiol er mwyn darparu casgliadau am ganlyniadau ar sail tystiolaeth a'r ffactorau cysylltiedig â'r rhain, mae'n gyfyngiad nad oedd y plant a'r bobl ifanc eu hunain yn gallu disgrifio eu canfyddiadau eu hunain o'u profiad o'r daith. Doedd hi ddim yn bosibl i wneud hynny gyda'r gyllideb oedd ar gael i ni a'r graddfeydd amser oedd yn ofynnol ar gyfer yr astudiaeth hon.
- Bu rhaid i'r ymchwilyr ddibynnu ar asesiadau cymharol oddrychol o ganlyniadau cyffredinol a thematig (e.e. addysgol, iechyd emosiynol a llesiant) gan fod hwn yn ddadansoddiad ôl-syllol, pragmatig o wybodaeth sydd ar gael fel mater o drefn. Fodd bynnag, seiliwyd dyfarniadau am ganlyniadau cyffredinol a thematig ar yr holl dystiolaeth sydd ar gael ar ffeiliau achos a phrofiad y gweithwyr achos a weithiodd gyda'r plant dros gyfnod o amser.
- Mae perthynas achosol rhwng ffactorau (megis mynediad cynnar neu hwyr i sefydlogrwydd gofal neu leoliad) ac mae chanlyniadau positif neu negyddol ar gyfer plant yn anochel yn anodd i'w sefydlu gan fod nifer o ffactorau ymyrgar eraill yn berthnasol i'r plentyn (plant) arbennig dan sylw. Nodwyd hyn hefyd gan

ymchwilwyr eraill a ystyriodd gwestiynau tebyg gyda charfannau tebyg (er enghraifft, Baginsky et al (2017)).

- 2.16 Er gwaetha'r cyfyngiadau hyn, mae'r astudiaeth yn darparu dadansoddiad cadarn o deithiau lleoliad a chanlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc yn dilyn Gorchymyn Gofal terfynol; mae'n nodi'r ffactorau sy'n gysylltiedig â chanlyniadau positif ac yn darparu tystiolaeth gadarnach i fod yn sail i ddarparu bolisi ac ymarfer er mwyn gwella ansawdd a sefydlogrwydd lleoliadau yn y dyfodol. Mae'r awduron yn credu mai hwn ydy'r tro cyntaf i ddadansoddiad o'r fath gael ei gynnal yng Nghymru.

### **3. Canfyddiadau**

3.1 Trefnwyd yr adran hon i nodi casgliadau allweddol y dadansoddiad o'r data o ran:

- Yr holl blant â Gorchymyn Gofal terfynol 2012 – 2013 wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad o'r garfan lawn (adran 3.2 – 3.13 isod).
- Yr is-sampl llai o blant o bump ardal awdurdod lleol y cynhaliwyd dadansoddiad manwl o'u canlyniadau (Adran 3.14 – 3.72 isod).
- Casgliadau brasach am y system gyfan yn deillio o gyfweiliadau lled-strwythuredig gyda Gweithwyr Cymdeithasol, Rheolwyr Tîm a Swyddogion Adolygu Annibynnol (Adran 3.73 – 3.88 isod).


3.2 **Casgliadau o'r dadansoddiad o'r holl blant â Gorchymyn Gofal terfynol o fis Ebrill 2012 tan fis Mawrth 2013**

3.3 **Nodweddion y Plant**

3.4 Roedd y garfan gyffredinol o 1076 o blant â Gorchymyn Gofal terfynol yn y flwyddyn o Ebrill 2012 i Fawrth 2013 yn cynnwys:


- 541 (50.3%) o fechgyn a 535 (49.7%) o ferched. Mae hyn yn eithaf cydnaws ag amcangyfrifon am boblogaeth canol 2012 (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2014) sy'n dangos mwy o fechgyn (51.3%) na merched (48.7%).
- Cofnodwyd 51 o blant (4.7%) ag anabledd. Cofnodwyd 911 (84.7%) o blant nad ydyn nhw'n anabl, ac roedd 114 (10.6%) lle nad oedd anabledd yn hysbys.
- Disgrifiwyd 95% yn Wyn (yn cynnwys Gwyn Cymreig, Gwyn Prydeinig a Gwyn arall) a 3% yn Gymysg eu Hethnigrwydd. Disgrifiwyd llai na 1% o'r boblogaeth yn Asiaidd, Asiaidd Prydeinig, Du Affricanaidd, Caribïaidd, neu Ddu Prydeinig. Er bod hyn ar y cyfan yn ffitio i mewn â phoblogaeth gyffredinol pobl ifanc 0-18 oed yng Nghymru, roedd cyfran plant Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig ychydig yn is yn y garfan hon yn 0.56% o'i gymharu â 2.95% o'r boblogaeth gyffredinol (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2014).
- Roedd bron hanner (49.4%) y Gorchymynion Gofal terfynol a ganiatawyd yn 2012-2013 ar gyfer plant o dan bump oed (Ffigwr 1).

**Ffigwr 1: Nifer y plant fesul band oedran ar adeg y Gorchymyn Gofal terfynol**



- Roedd y rhan fwyaf o blant yn rhan o grŵp sibling â Gorchymyn Gofal terfynol a wnaed ar yr un pryd (687 o blant, 64% o'r cyfanswm). Doedd tua traean o blant y garfan ddim yn rhan o grŵp sibling (389 o blant, 36% o'r cyfanswm). Roedd grŵp sibling gan amlaf yn cynnwys 2 neu 3 o blant ond roedd grwpiau gyda chymaint â 7 neu 8 o blant, er mai lleiafrif oedd y rhain, yn amlwg. (Ffigwr 2).

**Ffigwr 2: Nifer o grwpiau sibling fesul sawl sibling sydd yn y grŵp**



### 3.5 Angen sylfaenol am Orchymyn Gofal terfynol


Cofnodwyd bod gan mwyafrif y garfan (837 o blant neu 78% o'r cyfanswm) angen sylfaenol am ofal oherwydd camdriniaeth neu esgeulustod (gan gynnwys

camdriniaeth ddomestig), ac yna teulu camweithredol (10%, lle mae'r gallu i fagu plant yn gwbl annigonol) a theulu mewn strës aciwt (6%) a ddiffinnir fel teulu sy'n mynd trwy argyfwng dros dro sy'n gwanhau'r gallu i fagu plant i ddiwallu rhai o anghenion y plentyn. Ceir set lawn o ddiffiniadau o angen sylfaenol yng nghasgliad data Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol fel canllawiau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal (31 Mawrth 2016) a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

### 3.6 Taith lleoliad o adeg y Gorchymyn Gofal terfynol

Doedd dros dri chwarter y plant ddim wedi cael profiad o symud lleoliad (323, 30%) neu wedi symud unwaith (490, 46%) o bwynt Gorchymyn Gofal terfynol hyd at 31 Mawrth 2017 fel y gwelir yn Ffigwr 3 isod.

**Ffigwr 3: Plant fesul nifer o weithiau maen nhw wedi symud lleoliad**



Yr ystod mewn gwirionedd oedd rhwng 0 ac 17 o weithiau, gan fod yr un cofnod am 28 o leoliadau am blentyn annodweddiadol a nodwyd bod ganddo Orchymyn Gofal terfynol oedd yn ymddangos ei fod mewn gofal yn rheolaidd am gyfnodau byr iawn (llai na phythefnos) a chofnod ei fod yn gadael gofal rhwng pob cyfnod o ofal.

3.7 Nifer o weithiau y symudwyd lleoliad fesul oed plentyn, i'w weld yn Nhabl 1 isod.

**Tabl 1: Nifer o weithiau symudwyd lleoliad fesul band oed, a addaswyd i eithrio un plentyn oedd wedi symud lleoliad nifer fawr o weithiau (28) am ofal seibiant byr.**

| Oed ar adeg y Gorchymyn Gofal terfynol | Nifer cyfartalog (cymedrig) o weithiau y symudwyd lleoliad | Nifer uchaf o weithiau i blentyn unigol symud lleoliad |
|----------------------------------------|------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------|
| 16-17 oed                              | 1.74                                                       | 6                                                      |
| 10-15 oed                              | 2.17                                                       | 17                                                     |
| 5-9 oed                                | 1.00                                                       | 15                                                     |
| 1-4 oed                                | 1.01                                                       | 10                                                     |
| O dan 1 mlwydd oed                     | 1.02                                                       | 3                                                      |

Fel y gellid disgwyl symudodd plant hŷn yn enwedig y rhai rhwng 10 a 15 oed yn amlach na phlant iau. Fodd bynnag ar gyfer y rhan fwyaf o blant ymhob grŵp oed, yr un oedd y patrwm nodweddiadol sef dim un lleoliad neu symud lleoliad unwaith.

O ystyried yn fanwl y 27 o blant oedd wedi symud lleoliad saith neu wyth gwaith (ac eithrio'r un gyda chyfres o ofal seibiant byr), roedd eu symudiadau yn dilyn yr un patrwm h.y. nifer y dyddiadau a dreuliwyd mewn lleoliad yn dechrau'n isel (weithiau mor isel â 3 diwrnod) a chynyddu'n gyson dros amser.

### 3.8 Sut roedd plant yn peidio â bod yn blant oedd yn derbyn gofal ar ôl Gorchymyn Gofal terfynol

3.9 Peidiodd dros hanner (55% or 590) o blant gyda Gorchymyn Gofal terfynol yn ystod y flwyddyn 2012-2013 â bod yn blant oedd yn derbyn gofal ar ryw bwynt rhwng gwneud y Gorchymyn a Mawrth 2017. Y prif resymau dros beidio â bod yn blant oedd yn derbyn gofal oedd eu bod wedi cael eu mabwysiadu (59%), wedi dychwelyd i fyw at eu rhieni (11%) yn destun Gorchymyn Gwarchodaeth Arbennig (7%) neu'n gadael gofal (19%).

3.10 Drwyddi draw, mabwysiadwyd tua thraean (347 neu 32%) o'r garfan gyfan ar ôl y Gorchymyn Gofal terfynol. Ni wrthwynebwyd y cais ar gyfer dros hanner o'r plant hyn


(186 or 54%). Ar gyfer y 161 neu 46% oedd yn weddill, cafodd caniatâd rhieni ei hepgor.

Ymhlith y plant a gafodd eu mabwysiadu ar ôl y Gorchymyn Gofal terfynol roedd:

- Ychydig mwy o fechgyn (51%) na merched (49%), sy'n ffitio'n rhesymol agos gyda'r garfan drwyddi draw ac yn matsio â'r carfannau o fewn y boblogaeth gyffredinol.
- Llai o blant a ddisgrifiwyd ag anabledd (2.6%) o'i gymharu â'r garfan drwyddi draw (4.7%).
- Mwy o blant y caniatwyd Gorchymyn Gofal terfynol ar eu cyfer heb siblingiaid (50%) nag yn y garfan gyffredinol o blant sy'n derbyn gofal (36%). Os oedd gan blant frodyr neu chwiorydd â Gorchymyn Gofal terfynol ar yr un pryd, mabwysiadwyd (n 174), 56% (98) fel grŵp cyflawn o frodyr a chwiorydd, mabwysiadwyd 18% (32) gyda dim ond rhai o'u brodyr a'i chwiorydd a mabwysiadwyd 25% (44) ar eu pen eu hunain heb unrhyw frawd neu chwaer.

Roedd oed yn nodwedd sylweddol. Roedd plant iau yn fwy tebygol o gael eu mabwysiadu na phlant hŷn fel y gwelir yn Ffigwr 5 isod.

**Ffigwr 5: Nifer o blant a fabwysiadwyd yn ystod Gorchymyn Gofal terfynol**



Ar gyfartaledd, oed (cymedrig) y plant a aeth ymlaen i gael eu mabwysiadu oedd 2.9 oed ar adeg Gorchymyn Gofal terfynol a'r oed mwyaf cyffredin (modd) oedd 1 oed.

Roedd yr amser rhwng gwneud Gorchymyn Lleoli a chychwyn y lleoliad mabwysiadu yn amrywio'n sylweddol rhwng 0 ac 1,441 diwrnod.

Fodd bynnag, y nifer cyfartalog o ddyddiau rhwng y Gorchymyn Lleoli a chychwyn y lleoliad mabwysiadu oedd 262 diwrnod.

Prin oedd yr amrywiad yn nifer cyfartalog y dyddiau fesul oed y plentyn ar adeg y Gorchymyn Gofal terfynol (262 diwrnod ar gyfer plant oed 0-4 blynedd), 261 diwrnod ar gyfer plant 5-9 mlwydd oed a 273 diwrnod ar gyfer plant 10 mlwydd oed ac uwch).


3.11 Cyfanswm nifer y plant oedd yn peidio â bod yn rhai oedd yn erbyn gofal am resymau ar wahân i fabwysiadu oedd 128 (12% o'r garfan gyfan) ac yn cynnwys:

- 63 o blant (6% o'r garfan gyfan) a dychwelodd adref i fyw gyda rhieni, perthnasau neu unigolion eraill â chyfrifoldeb rhiant ar ôl treulio amser yn derbyn gofal. Roedd y rhan fwyaf o'r plant hyn yn dal i fyw gartref ar 31 Mawrth 2017, ond roedd cyfran fechan ( $n = 4$ ) a ddaeth yn rhai oedd yn derbyn gofal unwaith eto.
- 44 o blant (4% o'r garfan gyfan) a ddaeth yn destun Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig o blaid eu gofalwyr cyfredol, a thrwy hynny'n terfynu eu statws o fod blant sy'n derbyn gofal.
- 24 o blant heb unrhyw reswm penodol wedi'i gofnodi am beidio â bod yn rhai'n derbyn gofal (wedi'i godio fel 'cyfnod o ofal wedi terfynu am unrhyw reswm arall')
- 1 plentyn a fu farw tra'n derbyn gofal.

3.12 Cyrhaeddodd 115 o bobl ifanc (11% o'r garfan gyfan) 18 oed rhwng adeg eu Gorchymyn Gofal terfynol a 31 Mawrth 2017.

Ar gyfer dros hanner y bobl ifanc hyn, roedd hi'n bosibl i benderfynu ar eu taith ymlaen fel y gwelir yn Ffigwr 6 isod.

**Ffigwr 6: Teithiau lleoli ar gyfer ôl ofal ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal**



Ar gyfer y bobl ifanc hynny y mae gwybodaeth amdanyn nhw ar gael (n=38), roedd cyfran sylweddol wedi symud i drefniant byw'n annibynnol, naill ai i lety â chymorth oedd yn darparu trefniadau cyngor/cymorth ffurfiolaidd (e.e. y rhan fwyaf o hosteli. YMCA, cynteddau a phrosiectau ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal) (34/38) neu i mewn i lety sy'n darparu dim trefniadau cyngor/cymorth ffurfiolaidd (e.e. Gwely a Brecwast, fflat un ystafell, eu fflat eu hun, byw gyda ffrindiau) (4/38).


Dim ond 2 berson ifanc a gofnodwyd yn parhau i fyw gyda chyn riant(rieni) maeth mewn trefniadau 'Pan fydda i'n Barod'.

Ar gyfer cyfrifiad plant sy'n derbyn gofal, yn aml, ni chofnododd yr awdurdodau lleol y daith leoli ymlaen – mewn bron hanner yr achosion, yr oll y gallen ni ei weld oedd bod y gofal wedi dod i ben.

### 3.13 Plant yn dal i dderbyn gofal ar ôl 31 Mawrth 2017

Roedd cyfran sylweddol o'r garfan (486 neu 45%) yn dal i dderbyn gofal ar 31 Mawrth 2017. Ceir braslun o'r math o leoliad yr oedd y plant hyn oedd yn derbyn gofal yn preswyllo ynddyn nhw yn Ffigwr 4 isod.

**Ffigwr 4: Plant yn dal i fod yn rhai sy'n derbyn gofal ar ôl 31 Mawrth 2017, fesul y math o leoliad cyfredol (All = Awdurdod Lleol, GM = Gofal Maeth)**



Ble roedd hi'n bosibl i ddweud o'r mathau o leoliadau a gofnodwyd, lleolwyd o leiaf 269/486 (55%) o'r plant hyn oedd yn derbyn gofal yn ardal eu hawdurdod lleol eu hunain.

O ran y gwahanol fathau o ofal a ddarperir ar gyfer y rhai sy'n dal i dderbyn gofal, roedd y mwyafrif 162/486 (33.3%) mewn gofal maeth wedi'i drefnu drwy asiantaeth, ac yna 157/486 (32.3%) oedd yng ngofal maeth awdurdod lleol.

### 3.14 **Casgliadau o'r dadansoddiad manwl ar gyfer plant mewn pum ardal awdurdod lleol**

### 3.15 **Nodweddion Plentyn a Theulu**

3.16 Er mai dim ond 11/79 neu 14% o'r garfan lai hon oedd â chofnod o anabledd at ddibenion ffurflenni ystadegau gwladol, nododd dadansoddiad o'r ffeiliau achos 16 o blant ychwanegol oedd â ffurf gydnabyddedig o anabledd cyn iddyn nhw gael Gorchymyn Gofal terfynol neu tra bod ganddyn nhw Orchymyn, gan gynnwys y canlynol yn benodol:

- Plant gydag anabledd dysgu mân i ganolig.
- Plant ag anhwylder ar y sbectwm awtistig (ASD).
- Plant ar ddatganiad o anghenion arbennig o ran eu hanawsterau emosiynol ac ymddygiadol (EBD).

Felly, roedd gan tua traean (34%) o'r plant yn sampl cam dau ryw ffurf o anabledd adnabyddadwy. Mae hyn yn arwyddocaol yn rhannol oherwydd bod y cyfrannau mor wahanol i'r hyn a gofnodir yn genedlaethol ac yn rhannol oherwydd y goblygiadau ar gyfer ystod eang o ganlyniadau, yn enwedig canlyniadau addysgol a iechyd.

- 3.17 Roedd gan 35/79 neu 44% o'r plant ddiagnosis o anhwylder ymlyniad neu broblemau adnabyddadwy o ran ymlyniad naill ai ar adeg y Gorchymyn Gofal terfynol neu'n gymharol fuan wedi hynny. Efallai bod hyn yn tan-gynrychioli gwir fynychder anawsterau ymlyniad, gan fod ymchwil blaenorol, yn benodol Brandon et al (2014), wedi cydnabod y gallai babanod sydd wedi'u hesgeuluso oedd, ar y cychwyn, yn arddangos ymlyniadau diogel wedyn yn datblygu ymlyniadau anniogel neu anhrefnus wrth dyfu'n hŷn.
- 3.18 Roedd gan 23/79 neu 29% o'r plant anawsterau emosiynol ac ymddygiadol adnabyddadwy (EBD) ar adeg y Gorchymyn Gofal terfynol. Gallai'r anawsterau ddigwydd a gellid sylwi arny'n nhw naill ai yn y cartref, neu yn yr ysgol neu'r ddau . Ac eithrio'r grŵp oed 0-4, y gellid dweud eu bod yn rhy ifanc i arddangos EBD yn glir, ac nad oedd unrhyw gofnod EBD cadarnhaol amdany'n nhw, mae hyn yn cynrychioli ffigwr mwy realistig o 43% o'r garfan oed 5-17.
- 3.19 Fel y gellid disgwyl gyda charfan o blant â Gorchymyn Gofal terfynol, ond mewn cyferbyniad i ffigurau a gofnodwyd yn swyddogol ar gyfer y garfan gyfan, roedd yr holl blant wedi cael profiadau o ryw fath o gam-drin neu esgeulustod. Roedd 61/79 neu 77% wedi cael profiad o esgeulustod; roedd 30/79 neu 38% wedi cael profiad o neu wedi bod yn dyst i gam-drin plentyn yn gorfforol yn y teulu; ac roedd 19/79 neu 24% wedi cael profiad o gam-drin emosiynol. O ran 20/79 neu 25%, roedd pryderon neu gadarnhad ar sail tystiolaeth am gam-drin y plentyn yn rhywiol. Weithiau, roedd y pryderon hyn am gam-drin rhywiol yn ymddangos ar ôl gorffen yr achosion llys, ond yn cael eu cynnwys yma gan y gwyddwn, o ymchwil sydd eisoes yn bodoli, bod plant yn nodweddiadol yn oedi rhag datgelu'r math hwn o gam-drin (McElvaney, 2013).
- 3.20 Yn aml, roedd plant wedi cael profiad o un neu fwy o fathau o gam-drin. Er enghraifft:
- roedd 21 o'r 61 plentyn a gafodd eu hesgeuluso hefyd wedi cael profiad o gamdriniaeth gorfforol.
  - roedd 13 o'r holl blant (neu 16%) wedi cael profiad o gamdriniaeth gorfforol a rhywiol.

- roedd 12 o'r holl blant (neu 15%) wedi cael profiad o esgeulustod, camdriniaeth gorfforol a rhywiol.
- roedd 3 o'r holl blant wedi cael profiad o esgeulustod, camdriniaeth gorfforol, camdriniaeth rywiol a chamdriniaeth emosiynol.

3.21 Roedd profiadau andwyol plentyndod (ACEs) y mae'n hysbys eu bod yn cynyddu'r perygl o gamdriniaeth ac esgeulustod yn sylweddol (Wilkinson et al, 2017), yn enwedig cam-drin domestig, rhieni'n camddefnyddio sylweddau a materion iechyd meddwl rhieni yn gyffredin iawn yn y garfan hon (Tabl 1).

**Tabl 1: Mynychder tri 'ACE' allweddol sy'n hysbys eu bod yn cynyddu'r perygl o gamdriniaeth ac esgeulustod**

| <b>Ffactor rhieni</b>                                            | <b>Nifer o blant yn y garfan a effeithiwyd</b> | <b>% y plant yn y garfan a effeithiwyd</b> |
|------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------|--------------------------------------------|
| <b>Rhieni yn camddefnyddio sylweddau (cyffuriau neu alcohol)</b> | <b>60</b>                                      | <b>76%</b>                                 |
| <b>Cam-drin domestig</b>                                         | <b>54</b>                                      | <b>68%</b>                                 |
| <b>Problemau iechyd meddwl rhieni</b>                            | <b>37</b>                                      | <b>47%</b>                                 |

Mewn 21/79 (27%) o achosion, roedd yr holl faterion hyn yn bresennol yn union cyn cynnal yr achosion llys. Roedd ffactor risg hysbys arall, sef anabledd dysgu rhiant, yn bresennol mewn 4 achos.

- 3.22 Mewn llawer o'r achosion (36/79 or 46%) roedd y teulu wedi bod yn hysbys i'r Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant ers nifer o flynyddoedd a'r problemau rhieni/teulu oedd yn effeithio arnyn nhw (er enghraifft cam-drin domestig, rhieni'n camddefnyddio sylweddau, problemau iechyd meddwl rhieni) os na ellid disgrifio'r gwir gam-drin a'r esgeulustod yn gronig. Weithiau, roedd y teuluoedd hyn wedi symud rhwng dwy ardal neu ragor o ardaloedd awdurdodau lleol y DU yn ystod y cyfnod hwn.
- 3.23 Mewn 13/79 (16%) o achosion, roedd gan y plentyn (hŷn yn bennaf) siblingiaid neu hanner siblingiaid wedi'u geni i'r fam eisoes mewn gofal o ganlyniad i achosion llys. Roedd nifer y brodyr neu chwiorydd yn amrywio o 1 i 7 o blant.

- 3.24 Roedd 6/79 (neu 8%) o blant eisoes yn byw gyda gofalydd dirprwyol cyn i'r awdurdod lleol weithredu i ddod ag achosion o flaen y llys. Mewn 4 o'r achosion hyn, gofalydd am y plentyn gan nain neu daid ac mewn 2 achos, roedd y plentyn wedi cael ei fabwysiadu cyn yr achosion llys.
- 3.25 Roedd 9/79 (neu 11%) o blant wedi cael profiad o farwolaeth sydyn riant naturiol neu nain neu daid mewn rôl gofalydd allweddol tuag adeg yr achosion llys neu'r Gorchymyn Gofal terfynol. Mewn rhai achosion roedd y farwolaeth yn un dreisgar ei natur h.y. hunanladdiad neu lofruddiaeth.
- 3.26 Roedd gan 8/79 (neu 10%) o'r plant riant naturiol wedi cael carchar am drosedd dreisgar neu drosedd rywiol (gan gynnwys, mewn rhai achosion, am gam-drin neu esgeuluso'r plentyn) tuag adeg yr achosion llys neu'r Gorchymyn Gofal terfynol.
- 3.27 **Canlyniadau lleoliad a fynegwyd yn y Cynllun a gyflwynwyd i'r llys ar adeg y Gorchymyn Gofal terfynol**
- 3.28 Roedd canlyniad lleoliad dymunol ar gyfer y plentyn a ddisgrifiwyd i'r llys adeg y Gorchymyn Gofal terfynol yn amrywio'n sylweddol ond roedd gan y mwyafrif o blant gynllun ar gyfer gofal maeth hirdymor (42%) neu fabwysiadu (29%). Roedd gan blant eraill gynllun ar gyfer gofal gan berthynas (18%), lleoliad gyda riant (6%), neu ofal preswyl hirdymor (4%). Un plentyn yn unig oedd â chynllun gwahanol sef aros yn yr ysbyty o dan Adran 4 o Ddeddf Iechyd Meddwl (mewn uned iechyd meddwl glasoed) tan iddo/iddi allu gael ei r/rhyddhau ac wedyn, lleoliad therapiwtig i'w ddarparu gan yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd (Tabl 2).

**Tabl 2: Nifer y plant a'r canrannau fesul math o leoliad dymunol cyffredinol**

| <b>Math o leoliad dymunol cyffredinol</b>                           | <b>Nifer y plant yn y garfan</b> | <b>% o blant yn y garfan</b> |
|---------------------------------------------------------------------|----------------------------------|------------------------------|
| Gofal maeth hirdymor                                                | 33                               | 42%                          |
| Mabwysiadu                                                          | 23                               | 29%                          |
| Gofal hirdymor gan berthynas                                        | 14                               | 18%                          |
| Lleoliad gyda rhiant (gan gynnwys adsefydlu yn raddol ar y cychwyn) | 5                                | 6%                           |
| Gofal preswyl hirdymor                                              | 3                                | 4%                           |
| Aros yn yr ysbyty tan iddyn nhw allu cael eu rhyddhau               | 1                                | 1%                           |

3.29 Roedd Cynlluniau Lleoli yn aml yn fwy pwrpasol, er enghraifft:

- Nodwyd mabwysiadu gyda siblingiaid.
- Y cynllun oedd chwilio am leoliad mabwysiadu am 6 mis, ac os nad yw hynny'n bosibl, trefnu lleoliad maeth hirdymor.
- Ceisiwyd sefydlogrwydd drwy fabwysiadu gyda brodyr a chwiorydd os oedd hynny'n posibl o fewn amser penodedig ond, o fethu, chwilio am leoliad gyda brodyr a chwiorydd mewn gofal maeth.
- Y cynllun oedd cael lleoliad parhaus gyda'r gofalydd(gofalwyr) maeth sydd eisoes yn bodoli.
- Y bwriad oedd y dylai'r plentyn gael lleoliad ar wahân i'w sibling(iaid).

Rhestrwyd pob lleoliad gofal gan berthynas gan enwi naill ai daid neu nain neu fodryb/ewyrth.

3.30 Doedd dim un opsiwn lleoliad o ddewis dim ond tueddiadau yn y math o Gynllun Lleoli ar gyfer pob 'band' oed, er enghraifft:

- Mabwysiadu oedd y cynllun ar gyfer plant rhwng 1 a 7 mlwydd oed gydag oed cyfartalog (cymedrig) o 3 a'r oed mwyaf cyffredin (modd) o 1 oed ar adeg y Gorchymyn Gofal terfynol.
- Gofal maeth hirdymor oedd y cynllun ar gyfer plant rhwng 2 a 15 oed gydag oed cymedrig o 10 oed ac oed modd o 9 oed.
- Gofal gan berthynas oedd y cynllun ar gyfer plant rhwng 1 ac 13 oed.
- Roedd plant i'w lleoli (nôl) gartref rhwng 1 a 15 oed.
- Gofal preswyl oedd y cynllun ar gyfer plant rhwng 8 ac 15 oed gydag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol sylweddol.

**3.31 I ba raddau y cyflawnwyd y Cynllun Lleoli?**

3.32 Ystyriodd ymchwilwyr y cwestiwn hwn drwy ffocysu ar ddwy agwedd:

- I ba raddau y cyflawnwyd y Cynllun Lleoli yn y tymor byr (diffinnir fel y graddfeydd amser y rhagwelwyd yn wreiddiol neu'n debygol o gael eu rhagweld ar gyfer y Cynllun a ardystiwyd gan y llys).
- I ba raddau y cyflawnwyd y Cynllun Lleoli drwyddi draw yn yr hirdymor.

3.33 Yn y tymor byr, cyflawnwyd y Cynllun Lleoli ar gyfer plant mewn 64/79 neu 81% o achosion. Cyflawnwyd Cynlluniau Lleoli yn amlach yn y tymor byr ar gyfer y rhai'n cynnig mabwysiadu neu faethu tymor hir, lleoliad gyda rhiant (rhieni) neu ofal gan berthynas. Ni chyflawnwyd rhai Cynlluniau ar gyfer mabwysiadu yn unig, gofal maethu hirdymor neu leoliad gofal preswyl, fel y nodir yn Nhabl 3 isod:

**Tabl 3: Cyflawni Cynlluniau Lleoli yn y tymor byr fesul math o leoliad**

| Mathau o leoliad                       | Cyflawnwyd | Ni chyflawnwyd |
|----------------------------------------|------------|----------------|
| Mabwysiadu yn unig                     | 16 (76%)   | 5 (24%)        |
| Mabwysiadu neu ofal maeth hirdymor     | 2 (100%)   |                |
| Gofal maeth hirdymor                   | 24 (73%)   | 9 (27%)        |
| Gofal preswyl penodedig                | 2 (67%)    | 1 (33%)        |
| Lleoliad gyda rhiant(rhieni) gartref   | 5 (100%)   |                |
| Gofal hirdymor gan berthynas           | 14 (100%)  |                |
| Aros yn yr ysbyty nes cael eu rhyddhau | 1 (100%)   |                |

- Roedd mabwysïadau yn haws i'w cyflawni ar gyfer plant iau. Roedd tuedd i blant sy'n cyflawni mabwysiad a gynlluniwyd fod yn blant iau (yn bennaf yn blant 1-2 oed er bod rhai hyd at 7 oed) o'i gymharu â'r rhai na chafwyd eu mabwysiadu (y mwyafrif yn 5-6 oed). Roedden nhw hefyd yn fwy tebygol o fod yn lleoliadau i blant unigol yn hytrach na rhai ar gyfer grŵp sibling gyda'i gilydd.
- Doedd nemor ddim gwahaniaeth yng nghyfarfartaledd oed plant y cyflawnwyd neu na chyflawnwyd yn y tymor byr y cynllun gofal maeth hirdymor ar eu cyfer (10 ac 11 oed yn eu tro). Fodd bynnag, nodweddiad y plant hynny lle na lwyddodd y cynllun am ofal maeth hirdymor oedd: hanes o gam-drin ac esgeulustod cronig (8/9 achos); wedi cael profiadau o drawma eithafol ar ffurf cam-drin corfforol neu gam-drin rhywiol neu'r ddau (5/achos); neu bod yn rhan o grŵp sibling neu grŵp mawr sibling y bwriedir iddyn nhw gael eu maethu gyda'i gilydd (6/9 achos).
- Roedd gan dri o'r plant y nodwyd mai gofal preswyl oedd y Cynllun Lleoli eu cyfer anawsterau ymlyniad difrifol ar adeg yr achosion gofal. Roedd o leiaf 2/3 wedi cael profiad o gam-drin rhywiol ac yn arddangos ymddygiad rhywiolaidd iawn. Roedd y 3 phlentyn yn wedi cael profiad o drawma a chamdriniaeth yn gynnar yn eu bywydau, er i achosion gofal gael eu cychwyn yn weddol hwyr yn eu plentyndod. Bu mamau 2/3 o'r plant farw'n gynnar yn eu bywydau ac, o ganlyniad, roedden nhw wedi cael eu mabwysiadu neu'n derbyn gofal gan berthynas. Roedd

gan y 3 phlentyn anghenion emosiynol sylweddol ac anawsterau ymddygiad sylweddol ac yn mynd ar goll yn rheolaidd o'r cartref ac o'r ysgol neu'r ddau yn gyson.

3.34 Yn y tymor hirach, dros y cyfnod llawn o 4-5 mlynedd ar ôl Gorchymyn Gofal terfynol, methodd rhai o'r lleoliadau 'a gyflawnwyd ar y cychwyn'. Roedd hyn yn arbennig o wir yn achos rhai mathau o leoliadau megis y canlynol:

- **Lleoliadau gyda rhieni (gartref).** O'r 5 cynllun lleoli gyda rhieni a gyflawnwyd ar y cychwyn, ni lwyddodd 3 dros amser. Roedd y 2 blentyn gyda lleoliadau parhaol yn iau (1 a 2 oed) ar adeg y Gorchymyn Gofal terfynol, doedd ganddyn nhw ddim brawd na chwaer a heb gysylltiad sylweddol blaenorol â'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd y plant â lleoliad na chynhaliwyd yn hŷn (6 a 15 oed) ar adeg y Gorchymyn Gofal terfynol. Roedd y lleoliad wedi methu rhwng 12 ac 18 mis ar ôl y Gorchymyn Gofal terfynol oherwydd nad oedd y rhieni yn gallu cynnal gwelliannau yn eu ffordd o fyw a'u dull o fagu plant. Mewn 1 o'r 2 achos lle roedd y plentyn yn dal i fyw gartref gyda rhiant, roedd y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi dechrau gweithredu unwaith eto oherwydd eu bod yn amau esgeulustod a cham-drin emosiynol. Felly, dim ond 1/5 o'r math hwn o leoliad y gellir dweud ei fod yn cael ei gynnal yn bositif. er bod y niferoedd yn fach, mae'n ffitio i mewn gydag ymchwil blaenorol sy'n awgrymu bod risg uchel i blant sy'n dychwelyd gartref o ofal o gael eu hail-gam-drin neu eu hesgeuluso (gweler Sinclair et al., 2005; Farmer a Lutman, 2012; a Biehal et al., 2015).
- **Lleoliadau gofal maeth hirdymor.** Ni lwyddodd 8/24 (33%) o leoliadau maeth hirdymor dros amser. Fodd bynnag, mewn 3/8 o'r lleoliadau hyn roedd y plentyn wedi setlo ac yn gwneud yn dda mewn gofal maeth ond cafwyd penderfyniad gan y llys wedi hynny y dylen nhw ddychwelyd gartref i fyw gyda rhiant (rhieni). Yn y mwyafrif o'r achosion eraill (4/5), cyflawnodd y plant, wedi hynny leoliad parhaol arall.
- **Lleoliadau gofal hirdymor gan berthynas.** Ni chynhaliwyd 4/14 (29%) o'r lleoliadau cychwynnol dros amser. Mewn 2/4 o'r achosion methodd y lleoliad oherwydd i'r plentyn neu sibling gael ei gam-drin yn gorfforol gan eu taid a neu nain oedd yn ofalydd/ofalwyr. Mewn 2/4 o achosion, daeth yn amlwg nad oedd y fodryb/ewyrth oedd yn ofalwyr yn deall yr anghenion, yn enwedig anghenion

iechyd emosiynol a llesiant y plentyn ac felly ddim yn gallu ymateb yn briodol i'r rhain. Yn y ddau achos roedd hi'n ymddangos bod y plentyn yn cael ei wrthod gan ei ofalydd.

- **Lleoliadau gofal preswyl** y bwriadwyd iddyn fod yn rhai hirdymor. Ni chynhaliwyd lleoliadau y 2 a gyflawnodd y lleoliadau cychwynnol.

Mewn cyferbyniad, ni wyddys am un o'r 18 lleoliad mabwysiadu/gofal maeth hirdymor fethu dros y cyfnod o 4-5 mlynedd ar ôl y Gorchymyn Gofal terfynol.

3.35 Llwyddodd rhai plant na chyflawnwyd eu Cynllun Lleoli ar y dechrau i gael lleoliad parhaol wedi hynny. Er enghraifft:

- 4/5 o blant â Chynllun llys ar gyfer mabwysiadu wedi methu ar y cychwyn ac wedyn wedi cael lleoliad parhaol drwy ofal maeth hirdymor ac roedd y lleoliadau hyn i gyd yn dal yn ddi-doriad ar ddiwedd y cyfnod o 4-5 mlynedd ar ôl y Gorchymyn Gofal terfynol (yn ystod Gorffennaf – Awst 2017).
- 2/9 o blant â Chynllun llys ar gyfer maethu hirdymor na chafodd ei gyflawni ar y cychwyn, wedyn yn cyflawni lleoliad parhaol drwy faethu hirdymor.
- 1/2 o blant â Chynllun llys am leoliad hirdymor preswyl penodol na chafodd ei gyflawni ar y dechrau wedyn yn cael ei gyflawni'n barhaol drwy leoliad amgen gofal preswyl.

3.36 Fodd bynnag, doedd cyfran o'r plant (9/15) na chyflawnwyd eu Cynllun Lleoli ar y cychwyn ddim wedi llwyddo i gael lleoliad parhaol amgen ar ôl 4-5 mlynedd (erbyn Gorffennaf- Awst 2017). Mae hyn yn cynrychioli 11% o'r is-garfan drwyddi draw. Roedd gan y rhan fwyaf o'r plant hyn (6/9) gynllun ar gyfer gofal maeth hirdymor a ddisgrifiwyd adeg y Gorchymyn Gofal terfynol. Roedd ymron yr holl blant (8/9) ac roedd y mwyafrif wedi cael profiad o fethiant o leiaf dau leoliad ac roedd y mwyafrif wedi cael profiad o fethiant nifer o leoliadau. Mae'r plant sy'n ymddangos fel eu bod yn fwy gwydn er gwaetha methiant y lleoliadau yn iau a phrin oedd eu profiad o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso adeg y Gorchymyn terfynol.

- 3.37 **Beth oedd y canlyniadau ar gyfer y plant yn y garfan hyd at 18 oed?**
- 3.38 **Canlyniadau cyffredinol.** Gan gyfeirio at yr holl wybodaeth sydd ar gael ar ffeiliau achos ac o gyfweiliadau gyda Gweithwyr Cymdeithasol, Rheolwyr Tîm a Swyddogion Adolygu Annibynnol, ystyriwyd bod gan 56/79 (neu 71%) o blant, neu y tybiwyd yn achos gan blant mabwysiedig, ganlyniadau positif 4-5 mlynedd ar ôl y Gorchymyn Gofal terfynol. Ystyriwyd bod gan 15/79 (19%) ganlyniadau cymysg (cymysgedd mwy cytbwys o bositif a negyddol) a bod gan 8/79 (10%) ganlyniadau negyddol drwyddi draw.
- 3.39 **Canlyniadau amgylcheddau cartref.** Ystyriwyd bod 66/79 (neu 84%) o blant, neu y tybiwyd yn achos plant mabwysiedig mewn lleoliadau sefydlog, hapus gyda chyfathrebu ac ymlyniadau da. O'r 13 (16%) eraill, ystyriwyd bod 8 o'r plant mewn lleoliad ond anhapus gyda chyfathrebu ac ymlyniadau gwael, roedd 4 mewn lleoliad ansefydlog neu fregus, ac roedd 1 plentyn yn rhedeg i ffwrdd a dianc yn gyson.
- 3.40 **Canlyniadau addysgol.** Pan dynnwyd y plant nad oedd eu canlyniadau addysgol yn wybyddus neu'n berthnasol (hyd yn hyn) allan o'r dadansoddiad, ystyriwyd bod 62.5% (45/72) o blant y garfan mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (EET) llawn amser ac yn cyflawni'n dda o ran eu gallu gwybyddol a amlygwyd yn y ffeiliau a'r cyfweiliadau. Roedd 23.6% (17/72) mewn EET llawn amser ac yn cyflawni'n rhannol dda ac roedd 5.5% (4/72) mewn EET rhan amser. Dim ond mewn 6/72 (8.3%) o achosion roedd plant mewn naill ai addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant llawn amser neu ran amser ac yn cael eu hystyried eu bod yn methu â chyflawni.
- 3.41 **Canlyniadau cymdeithasol.** Ystyriwyd bod 41/73 (56%) o blant, neu y tybiwyd yn achos plant mabwysiedig, yn gallu cymysgu'n dda gyda chymheiriaid ac oedolion. Gallai 26/73 (36%) gymysgu'n rhannol dda gyda chymheiriaid ac oedolion. Doedd 4/73 (5%) ddim yn gallu cymysgu'n dda gyda chymheiriaid ac oedolion. Roedd 2/73 (3%) wedi'u hynysu o gymheiriaid ac oedolion.
- 3.42 **Canlyniadau iechyd corfforol.** Ystyriwyd fod gan y mwyafrif o'r plant dan sylw, neu y tybiwyd yn achos plant mabwysiedig, ganlyniadau iechyd corfforol da (64/75 neu 85% o ran y plant roedd digon o wybodaeth ar gael). Ystyriwyd fod gan 6/75 neu 8% ganlyniadau rhannol o ran iechyd corfforol. Ystyriwyd fod 3/75 neu 4% yn afiach yn gorfforol a'u bod wedi cael cynnig cymorth ond wedi'i wrthod. Roedd 1 plentyn yn

gorfforol iachach ond heb gael cynnig cymorth. Roedd gan 1 plentyn anghenion ieched corfforol sylweddol oedd ddim yn gwella ond yn cael eu trafod yn barhaus.

- 3.43 **Canlyniadau ieched rhywiol.** Roedd y mwyafrif o'r plant (42/79) yn rhy ifanc i ganlyniadau ieched rhywiol fod yn rhai perthnasol. O'r 37 plentyn a phobl ifanc oedd yn weddill, ystyried fod gan 31 (84%) ieched rhywiol da. Roedd gan 4/37 (11%) ieched rhywiol rhannol dda. Ystyriwyd fod y 2 blentyn arall yn afiach yn rhywiol yn cynnwys bod dan risg o gael eu hecsbloetio'n rhywiol neu gael haint a drosglwyddir yn rhywiol.
- 3.44 **Canlyniadau troseddu.** Roedd llawer o'r plant (39/79) yn rhy ifanc i fod â chanlyniadau troseddu iddyn nhw fod yn rhai perthnasol. Nid oedd sail i gredu fod 35 o'r 40 o blant a phobl ifanc oedd yn weddill yn troseddu o gwbl. O'r 5 plentyn oedd yn weddill, dim ond 1 oedd yn troseddu'n rheolaidd gan gynnwys troseddau difrifol. Roedd 2 blentyn yn troseddu'n achlysurol ond yn cynnwys o leiaf un trosedd ddifrifol. Roedd gwybodaeth ar gael fod 2 blentyn wedi cyflawni 'un trosedd unigol' oedd heb fod yn un ddifrifol.
- 3.45 **Canlyniadau ieched emosiynol a llesiant.** Mewn 2 achos, doedd dim digon o wybodaeth ar gael i ddod i benderfyniad am ieched emosiynol ac anghenion llesiant y plentyn. Ystyriwyd, o ran gweddill y plant, neu a dybiwyd yn achos plant mabwysiedig, mai dim ond 36/77 (47%) yr oedd ganddyn nhw ganlyniadau da o ran ieched emosiynol a llesiant. Roedd gan 25/77 (32%) ganlyniadau rhannol dda o ran ieched emosiynol a llesiant. Ystyriwyd bod 15/77 (19%) yn emosiynol wantan ac ansefydlog ac yn derbyn naill ai cymorth gwasanaeth ieched meddwl arbenigol plant a glasoed (CAMHS) (12) neu fathau eraill o gymorth therapiwtig (3). Doedd 1 plentyn emosiynol wantan neu ansefydlog ddim yn derbyn unrhyw gymorth. Felly gellid ystyried bod cyfanswm o 21% o'r garfan yn emosiynol wantan neu'n ansefydlog 4-5 mlynedd ar ôl y Gorchymyn Gofal terfynol.
- 3.46 **Ffactorau'n gysylltiedig â chanlyniad cyffredinol positif**
- 3.47 Roedd y garfan o 56 o blant gyda chanlyniadau cyffredinol positif yn cynnwys:
- Cyfartaledd oed (cymedrig) o 6.9 ar adeg y Gorchymyn Gofal terfynol (ond ystod oed drwyddi draw o 1-15 mlynedd).
  - Ychydig mwy o ferched (31 neu 55%) na bechgyn (25 neu 45%).

- Plant yn byw mewn amrediad o leoliadau parhaol neu hirdymor yn cynnwys: mabwysiadu, maethu hirdymor; gofal gan berthynas ac wedi'u lleoli gyda rhiant (ond nid gofal preswyl).
- Mwyafrif o blant (41/56 neu 73%) gyda'r canlyniadau lleoliad hirdymor a fynegwyd yn y Gorchymyn Gofal terfynol wedi cael eu cyflawni'n llawn neu ar gyfer y mwyafrif eraill (12/56 neu 21%) wedi'u cyflawni'n rhannol. Dim ond mewn 3/56 neu 5% o'r achosion y methwyd â chyflawni canlyniadau a nodwyd ar gyfer y lleoliad.

### 3.48 **Blwch 2: Ffactorau allweddol llwyddiant ar gyfer plant na chafodd eu mabwysiadu na'u lleoli gartref**

3.49 I blant na chafodd eu mabwysiadu neu eu lleoli gartref mae tair rhan y canfyddiadau o ddadansoddiad y ffeiliau achos a chyfweiliadau gyda Gweithwyr Cymdeithasol, Rheolwyr Tîm a Swyddogion Adolygu Annibynnol (IRO) yn awgrymu mai'r ffactor allweddol sy'n gysylltiedig â chanlyniadau mwy positif ar gyfer y plentyn oedd ansawdd y gofal a ddarperir gan rieni maeth, gan berthynas a'r lleoliad preswyl. Hwn oedd y ffactor mwyaf arwyddocaol a welwyd mewn dros 90% o'r achosion, gan gynnwys ar gyfer y plant hynny oedd wedi cael profiad o leoliad anfoddhaol blaenorol a/neu fethiant lleoliad. Ymhlith nodweddion lleoliadau ardderchog neu rai da a welwyd yn gyson oedd:

- Sefydlogrwydd
- Cynnes a meithringar
- Ymroddgar (i anghenion y plentyn hwn yn yr hirdymor)
- Rhagweithiol yn cynorthwyo anghenion addysgol cymdeithasol a iechyd y plentyn
- Cynhwysol – cynnwys y plentyn o fewn y teulu ehangach

Ymhlith y ffactorau eraill a welwyd mewn canlyniadau positif drwyddi draw oedd:

- Cymorth cartref/ysgol da neu ardderchog, gan gynnwys cymorth i fynychu a chyflawni
- Gallu'r gofalydd i hybu cyswllt buddiol gyda theulu naturiol y plentyn teulu estynedig
- Cymorth therapiwtig yn cael ei ddarparu ar gyfnod cynnar problem neu ymateb yn rhagweithiol i anghenion neu brofiadau hysbys pan fydd plentyn yn dod i mewn i ofal, er enghraifft o ran materion ymlyniad, trawma neu gam-drin

rhywiol

- Y plentyn yn cael ei annog i gymryd rhan yn gyson mewn gweithgareddau positif
- Gweithiwr Cymdeithasol cyson yn gallu datblygu perthynas dda gyda'r plentyn
- Y plentyn yn cael eu leoli ar ei ben eu hun neu gyda siblingiaid i ddiwallu eu anghenion arbennig

Mewn rhai achosion ystyriwyd bod rhai canlyniadau yn rhai positif yn gyffredinol er bod gan y plentyn rai problemau yn parhau i fodoli. Gan amlaf, problemau ynglŷn â iechyd emosiynol ac anghenion llesiant y plentyn oedd y rhain nad oedden nhw (hyd yma) wedi cael eu diwallu. Mae hyn yn arwyddocaol gan fod y plant ymhob achos ar fin pontio i'w harddegau canol neu hwyr (pan fydden nhw'n sefyll arholiadau TGAU neu lefel A) neu'n unigolion oedd yn gadael gofal.

### 3.50 **Blwch 1: Ffactorau llwyddiant allweddol tymor byr ar gyfer plant sy'n cael eu mabwysiadu**

I blant sy'n cael eu mabwysiadu yn y garfan hon, mae ein dadansoddiad o ymateb Gweithiwr Cymdeithasol, Rheolwr Tîm a Swyddog Adolygu Annibynnol yn awgrymu mai ffactorau allweddol llwyddiant cychwynnol lleoliadau oedd:

- Oed (cymharol ifanc) y plentyn ar adeg dod i mewn i ofal ac felly, prin oedd y profiad o gamdriniaeth neu esgeulustod
- Achosion llys cymharol cyflym, prosesau matsio a lleoli
- Paru da gyffredinol gyda'r rhiant/rhieni sy'n mabwysiadu o ran anghenion y plentyn a nodweddion y rhieni
- Ansawdd y cymorth ar gyfer y plentyn i bontio i mewn i'r lleoliad mabwysiadu – a ddarperir gan y gofalydd(gofalwyr) maeth a'r Gweithiwr(wyr) Cymdeithasol
- Ansawdd y paratoi sydd ar gyfer y rhiant (rhieni) sy'n mabwysiadu, yn enwedig gwybodaeth dda am nodweddion ac anghenion y plentyn

### 3.51 Enghreifftiau

#### Plentyn 63

Y plentyn hwn oedd yr hynaf o nifer o blant â Gorchymyn Gofal terfynol a wnaed pan oedd e tua 12 oed. Daeth i mewn i ofal gyda diagnosis o anawsterau ymlyniad a phroblemau emosiynol ac ymddygiadol (EBD). Yr hyn a brysurodd ei fynediad i ofal oedd y 'trawd gwenwynig' o broblemau teuluol sef cam-drin domestig, rhieni'n camddefnyddio sylweddau a phroblemau iechyd meddwl rhieni ynghyd ag esgeulustod oedd wedi bod yn destun pryder ers nifer o flynyddoedd. Cynllun Lleoli a gyflwynwyd i'r llys yn y gwrandawriad terfynol oedd un ar gyfer gofal maeth hirdymor.

Er na weithiodd lleoliad hirdymor cyntaf i'r bachgen hwn, trefnwyd ail leoliad yn fuan wedyn ac mae'r plentyn wedi bod yn byw gyda'r un gofalwyr nawr am bedair blynedd.

Mae'r plentyn hwn wedi gwneud yn dda gyda'i rieni maeth a dywedir iddo aeddfedu'n sylweddol yn emosiynol ac yn ei ymddygiad. Mae ei bresenoldeb yn yr ysgol yn uchel, yn 98% ac, er ei fod ar ei hôl hi'n academaidd pan ddaeth i mewn i ofal, mae'n edrych yn debyg nawr y bydd yn cyflawni'n ddigon da yn ei TGAU iddo allu mynd i'r coleg ym mis Medi. Yn ogystal â lleoliad maeth o ansawdd uchel, meithringar ac ymroddedig, mae'r plentyn hwn i elwa o gael Gweithiwr Cymdeithasol cyson sydd wedi rhoi llawer o sylw iddo ac sydd wedi gallu nodi a threfnu cymorth ar gyfer ei anghenion iechyd emosiynol. Erbyn hyn mae'n mynychu gweithgareddau positif yn gyson e.e. Ymddiriedolaeth y Tywysog, tra roedd ei anghenion emosiynol ac ymddygiadol pan ddaeth i mewn i ofal gymaint doedd e ddim yn gallu ymuno â chlybiau a digwyddiadau cymdeithasol.

*"Mae wedi cyflawni llawer mwy nag a ddisgwyliwyd. Mae'n gwneud yn eithriadol o dda o gofio'i gefndir. Mae wedi tyfu mewn hyder ac rydyn ni wedi ei weld yn symud ymlaen yn ardderchog. Dw i mor falch ohono ac yn meddwl bod ei ofalwyr a'i rieni yn falch ohono hefyd ac mae e'n gwybod hynny."*

Gweithiwr Cymdeithasol

#### Plentyn 62

Daeth y ferch hon i mewn i ofal pan oedd yn 9 oed ar ôl cael profiad o gam-drin rhywiol, cam-drin domestig a cham-drin emosiynol. Y cynllun oedd gofal maeth hirdymor gyda sibling. Fodd bynnag, methiant fu'r lleoliad, yn bennaf oherwydd anawsterau eithafol ymlyniad nad aeth neb i'r afael â nhw, ymddygiad heriol a phroblemau perthynas â'r sibling. Mae'r gofalwyr maeth hirdymor y lleolwyd hi gyda nhw wedi hynny ar ei phen ei hun, a'i ariannu fel lleoliad i un unigolyn am y 3 blynedd ddiwethaf, yn rhai meithringar a phrofiadol iawn. Cynorthwywyd y plentyn i deimlo'n rhan bwysig o'r teulu. Hyrwyddwyd sefydlogrwydd ac ansawdd y lleoliad hefyd gan gymorth therapiwtig sylweddol a ddarparwyd yn ystod y cyfnod pontio i mewn i deulu'r rhieni maeth presennol, gan gynnwys therapi teuluol arbenigol a therapi

chwarae. Cafwyd Gweithiwr Cymdeithasol cyson a gofalgar ynghyd â chymorth yn yr ysgol. Mae'r eneth hon nawr yn ffynnu yn ei lleoliad ac yn gwir fwynhau'r ysgol ac yn dechrau gwneud ffrindiau a chymryd rhan mewn clybiau allgyrsiol.

*"Mae ei hunan-hyder wedi cynyddu ac yn hoffi edrych yn dda, yn teimlo'n dda amdani hi ei hun. Yn addysgol, mae wedi llamu ymlaen ac mae hi'n gwneud yn wirioneddol dda erbyn hyn. Mae wedi cael therapi i ddeall ei hymddygiadau sydd wedi bod o gymorth mawr. Mae'n cyflawni llawer yn yr ysgol. Maen nhw'n cydnabod hyn. Mae hi'n cyrraedd targedau ac yn rhan o grwpiau ysgol er enghraifft cerddoriaeth, côr"*

Gweithiwr Cymdeithasol

## Plentyn 29

Roedd y plentyn hwn 13 oed â Gorchymyn Gofal terfynol wedi cael profiad ynghyd â'i siblingiaid o gam-drin ac esgeulustod cronig: cam-drin corfforol, esgeulustod a cham-drin rhywiol. Roedd gan ei fam anawsterau dysgu a bu ei dad farw cyn i'r plentyn ddod i mewn i ofal. Y cynllun oedd gofal maeth hirdymor gyda sibling.

Er gwaetha anghenion emosiynol sylweddol ac anhawster dysgu mân i ganolig, mae'r plentyn hwn wedi ffynnu yn y lleoliad maeth hirdymor sydd wedi darparu cartref maeth hapus sefydlog gyda gofalwyr ymroddedig sy'n ei drin fel un o'r teulu ac wedi ymrwymo i ofalu amdano hirdymor gan gynnwys pan fydd yn fachgen sy'n gadael gofal. Mae presenoldeb y plentyn yn yr ysgol yn ardderchog ac mae wedi derbyn cymorth yno i gyflawni. Mae'n amlwg wrth ei fodd yn yr ysgol ac yn mwynhau chwarae yn nhîm rygbi'r ysgol. Caiff ei annog i ymddiddori mewn pethau eraill tu allan i'r ysgol, yn union fel unrhyw blentyn arall. Mae cymorth sylweddol ar y cyd ('wraparound') gan yr ysgol yn cydweithio gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol a hefyd y gymuned ehangach.

Mae gan y plentyn hwn anghenion iechyd emosiynol cymhleth parhaus, wedi'u cymhlethu gan ei anableddau ASD (anhwylderau ar y sbectrwm awtistig) yn ogystal â phrofiadau negyddol ei blentyndod cynnar.

*"Mae'r gofalwyr yn glir y gall aros gyda nhw cyhyd ag y mae'n dymuno. Maen nhw'n ei gynnwys yn llawn yn y teulu"*

Rheolwr Tîm

Mae myfyrdodau eraill Swyddog Adolygu Annibynnol neu Weithiwr Cymdeithasol ar achosion gyda chanlyniadau positif gan fwyaf yn cynnwys:

*"Paru delfrydol"* o ran plentyn 15 oed y methodd ei leoliad cyntaf gyda pherthnasau ac erbyn hyn mae'n byw gyda rhieni maeth.

*“Roedd hon yn rhan o’r teulu maeth o’r cychwyn cyntaf. Mae’n dweud er enghraifft bod bywyd yn ‘awesome’ a rhyfeddol” am blentyn 13 oed a barhaodd i fyw gyda’r un rhieni maeth sydd erbyn hyn â Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig ar ei chyfer.*

O ran merch ifanc 18 oed gydag anhawster dysgu mân i ganolig y methodd ei lleoliad cyntaf pan oedd y gofalwyr am ymddeol: *“Fe wnaeth yr ail leoliad ei pharatoi’n dda ar gyfer bod yn annibynnol ac anogwyd sgiliau newydd, a’u symud i leoliad oedolion yn dda iawn. Bu hon yn daith bositif, o gofio’i sefyllfa, penderfyniadau a chanlyniadau da iawn ar gyfer y ferch hon. Roedd yr (ail) ofalwyr yn rhyfeddol, yn teimlo’n angerddol am ei gofal. Gwelwyd newid amlwg yn y person ifanc pan ddaeth yma, blodeuodd a thyfu mewn hyder”.*

Am berson ifanc sydd erbyn hyn yn 19 oed gydag anhawster dysgu mân i ganolig: *“Cyflawnodd y ferch hon yn well na’r disgwyl a mynychodd rai gwersi prif ffrwd. Dewisodd fynd i’r coleg a gwneud lleoliadau gwaith. Roedd yn mwynhau mynd i’r clwb ieuenctid lleol. Roedd ei iechyd emosiynol a’i llesiant mor bositif ag y gallai fod o gofio’r esgeulustod cronig a wnaeth ddioddef a’r rheoli fu arni. Bu’r cymorth therapiwtig a gomisiynwyd yn benodol ar ei chyfer o help enfawr iddi”.*

Am ddyn ifanc erbyn hyn yn 20 oed *“Daethpwyd ag arbenigwr cofnodi profiadau bywyd i mewn i weithio gyda phobl ifanc a siblingiaid a gwnaeth y gwaith am flwyddyn. Drud ond o gymorth mawr. Gweithiodd y therapydd hwn hefyd gyda’r gofalwyr. Roedd hyn i gyd wedi ei helpu ac i ddatblygu hunan-barch ac i fod yn ddyn ifanc hyderus, wedi ei gynorthwyo i fanteisio i’r eithaf ar ei alluoedd, yn enwedig yn addysgol”.*

Am blentyn erbyn hyn sy’n 14 oed a gafodd brofiad o esgeulustod cronig nawr wedi’i leoli gyda gofalwyr maeth hirdymor: *“Fe wnaeth y gofalwyr wneud i’r plentyn hwn a’i sibling deimlo eu bod yn cael eu caru”.*

### **3.52 Ffactorau’n gysylltiedig â chanlyniadau cyffredinol negyddol**

3.53 Nodweddion y garfan o 8 plentyn a ystyriwyd bod ganddyn nhw ganlyniadau cyffredinol negyddol sef:

- Cyfartaledd oed (cymedrig) o 10 (hyn na’r garfan gyda chanlyniadau cyffredinol positif) ac ystod oed o 1 i 15 oed ar adeg y Gorchymyn Gofal terfynol.

- Mwy o fechgyn (6/8) nag o ferched (2/8).
- Plant yr oedd pob un wedi cael profiad o gam-drin ac esgeulustod dybryd a/neu gronig.
- Nifer o blant gydag ymddygiad heriol iawn o ganlyniadau i'w profiad o gael eu cam-drin, er enghraifft: ymddygiad rhywiolaidd, baeddu neu eniwresis (gwlychu'r gwely).
- Bron yr holl blant nad oedd canlyniadau eu lleoliad dymunol ar adeg y Gorchymyn Gofal terfynol wedi cael eu diwallu.
- Yn y mwyafrif o achosion, taith lleoliad gan gynnwys nifer o fethiannau ac yn aml methiant cynnar lleoliad neu leoliad camdriniol neu amhriodol nad oedd yn diwallu anghenion sylfaenol y plentyn.
- Mynediad anaml neu ddiymateb i gymorth penodol ar gyfer y plentyn ag anghenion iechyd emosiynol a llesiant.
- Rhai plant â chyswllt parhaus gyda rhiant camdriniol oedd yn ymddangos i fod naill ai'n ansefydlogi neu fel arall yn andwyol.

### 3.54 Enghreifftiau

#### Plentyn 26

O ran Gorchymyn Gofal terfynol a wnaed pan oedd yn blentyn dan oed ysgol, mabwysiadu oedd y Cynllun Parhad a gyflwynwyd i'r llys. Mae'n debygol bod ei anghenion emosiynol ac ymddygiadol yn deillio o'r cam-drin rhywiol, y cam-drin corfforol a'r esgeulustod cronig eu natur a brofodd pan oedd yn gymharol ifanc. Dydy'r plentyn hwn ddim wedi cael lleoliad hirdymor boddhaol (yn lleoliad mabwysiadu neu'n ofal maeth). Ar hyn o bryd, mae'r awdurdod lleol yn pryderu nad yw'r lleoliad oedd i fod yn un tymor byr tra'n chwilio am bobl i'w fabwysiadu yn debygol o fod yn diwallu ei anghenion. Ni chredir bod y rhieni maeth yn cynorthwyo canlyniadau emosiynol ac addysgol da a'r pryder ydy eu bod yn ansefydlog ac yn dangos diffyg empathi. Credir eu bod yn gofalu am ormod o blant ar y tro ac yn methu â blaenoriaethu anghenion y plentyn hwn. Er bod y plentyn hwn mewn addysg llawn amser, dydy e ddim yn cyflawni ac yn ei chael hi'n anodd cymysgu gyda phlant ac oedolion eraill o ganlyniad i'w ymddygiad.

*“Dydy'r gofalmwyr maeth hyn ddim yn deall anghenion y bachgen. Fel plentyn sy'n Derbyn Gofal (dw i'n meddwl) gallwn ni fod wedi gwneud yn well i'r plentyn hwn” IRO*

#### Plentyn 37

Erbyn i'r plentyn dan sylw gael Gorchymyn Gofal terfynol, roedd hi yn ei harddegau a chanddi broblemau ymlyniad a iechyd emosiynol a llesiant / ymddygiad amlwg (EBD). Roedd hi hefyd yn dianc yn rheolaidd, yn cymryd cyffuriau ac mewn perygl o gael ei hecsploetio'n rhywiol yn ogystal â chael ei gwahardd o'r ysgol. Cafodd ei cham-drin yn rhywiol, ei hesgeuluso a'i cham-drin yn gorfforol pan oedd yn blentyn iau. Bu farw ei mam naturiol ac ar y cychwyn lleolwyd hi gyda'i mam-gu. Yn y lleoliad hwn, roedd diffyg cynhesrwydd emosiynol a diffyg dealltwriaeth o anghenion emosiynol y plentyn ac yn lleoliad aflwyddiannus cyn i'r Gorchymyn Gofal gael ei wneud. O gael profiad o nifer o fethiannau lleoliad maethu yn flaenorol, y Cynllun Parhad a gyflwynwyd i'r llys oedd un am leoliad preswyl therapiwtig hirdymor.

Ers hynny, gofalmwyd am y plentyn mewn nifer o leoliadau diogel a phreswyl. Methiant fu'r holl leoliadau preswyl. Mae'r plentyn wedi'i hynysu o'i chymheiriaid, yn dal i

ddianc ac yn emosiynol ansefydlog, yn troseddu'n gyson ac mewn perygl o gael ei hecsbloetio'n rhywiol.

*“Mae'n arswydus i gofio'r ferch greadigol hon a nawr ei gweld yn oedolyn ifanc na all hyd yn oed gyfathrebu.” Swyddog Adolygu Annibynnol.*

## **Plentyn 54**

Oed cynradd oedd y plentyn hwn adeg y Gorchymyn Gofal terfynol. Ynghyd â siblingiaid, roedd wedi bod ar Gofrestr Amddiffyn Plant am nifer o flynyddoedd gyda phryderon am esgeulustod yn gysylltiedig â chamdriniaeth domestig a rhieni'n camddefnyddio sylweddau. Lleolwyd y plant gyda'u nain a'u taid yn unol â'r Cynllun a gyflwynwyd i'r llys ar adeg y Gorchymyn Gofal terfynol.

Yn ddiweddarach, tynnwyd y plant o gartref eu nain a'u taid a'u lleoli mewn gofal maeth oherwydd cam-drin corfforol. Roedd y plentyn hwn eisoes wedi arddangos arwyddion sylweddol o drallod meddwl (gan gynnwys baeddu) a chredir bod y nain a'r taid wedi gwrthod cymorth gyda magu'r plant.

Cynigiwyd cymorth therapiwtig ar gyfer y plentyn 4 blynedd yn unig ar ôl y Gorchymyn Gofal terfynol.

Tybir bod y lleoliad gofal maeth presennol yn un bregus, mae'r plentyn hwn erbyn hyn yn cael trafferth yn yr ysgol ac mae'n ei chael hi'n anodd i gymysgu gyda chymheiriaid ac oedolion oherwydd ei ymddygiad eithafol. Mae'n dechrau datgan dymuniad i ddychwelyd adref i fod gyda'i fam, a hyn wedi'i sbarduno efallai gan ddiffyg cefnogaeth y fam i'r lleoliad gofal maeth.

### **3.55 Ffactorau yn gysylltiedig â chanlyniadau cymysg ar ôl 4-5 mlynedd**

Roedd y garfan o 15 plentyn â chanlyniadau cyffredinol-gymysg yn cynnwys y nodweddion canlynol:

- Cyfartaledd oed (cymedrig) o 7-9 mlwydd oed ac ystod oed o 1 i 14 oed ar adeg y Gorchymyn Gofal terfynol.
- Mwy o ferched (10/15) nag o fechgyn (5/15).
- Nifer gyfartal bron o blant gyda chanlyniad eu Cynllun Lleoli wedi'i nodi ar adeg y Gorchymyn Gofal terfynol wedi cael eu diwallu yn (6/15), heb eu diwallu (5/15) neu wedi eu diwallu'n rhannol (4/15).

- Yn debygol o fod wedi cael profiad o gam-drin neu esgeulustod cronig neu eithafol pan oedden nhw'n blant iau.
- 10/14 o blant â lleoliad gofal dirprwyol oedd i fod yn un hirdymor ond methodd yn sydyn, gan effeithio ar y plentyn yn emosiynol (roedd yr 1 lleoliad arall gartref gyda rhiant).
- Y 15 o blant oedd yn byw yn fwy diweddar gyda gofalwyr ymroddedig, meithringar sy'n cydweddu â'u hanghenion ac yn gallu meithrin ymdeimlad o berthyn.
- Cymorth da (gan ofalwyr maeth neu'r ysgol neu gan y ddau) i fynychu addysg a gwneud cynnydd da, ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau positif.
- Yn y mwyafrif o achosion (14/15), ymlyniadau a/neu broblemau trawma cynnar heb eu datrys a oedd wedi dechrau effeithio ar y plentyn yn emosiynol neu'n ymddygiadol ac i danseilio canlyniadau eraill mwy positif [o'r 14 plentyn hyn dim ond iechyd emosiynol a llesiant rhannol dda sydd ganddyn nhw (7) neu'n wantan neu'n ansefydlog yn emosiynol (7).]

3.56 Enghreifftiau:

#### Plentyn 4

Daeth y plentyn hwn i ofal fel rhan o grŵp mawr o frodyr a chwiorydd ac yn blentyn oed cynradd ar adeg y Gorchymyn Gofal. Roedd y plant wedi cael profiad o esgeulustod a cham-drin emosiynol yn gysylltiedig â cham-drin domestig a rhieni'n camddefnyddio sylweddau dros nifer o flynyddoedd, Y cynllun ar gyfer y plentyn hwn oedd gofal maeth hirdymor gyda sibling.

Methiant fu'r Lleoliad maeth cyntaf a Gynlluniwyd i fod yn un hirdymor gan fod y gofalwyr am ymddeol. Tybiwyd bod y plentyn wedi bod teimlo ymlyniad at y gofalwyr. Fodd bynnag, roedd **problemau** tu mewn i'r lleoliad gan fod ffafriaeth yn cael ei ddangos i'r sibling. Wedi hynny, tynnwyd y ddau o ail leoliad hirdymor oherwydd y magu amhriodol fu arnyn nhw.

Yn y trydydd lleoliad maeth cyfredol, mae ymlyniad y plentyn yn wael er gwaethaf gofal gwell a dim ond yn rhannol mae hi'n gallu cymysgu â chymheiriaid ac oedolion. Mae hi'n creu helynt sylweddol ac yn gyson yn colli arni hi ei hun yn emosiynol. Fodd bynnag, hyd yn hyn mae'n mynychu'r ysgol; yn rheolaidd ac yn cyflawni'n dda yno.

*"Byddai rhyw fath o ofal therapiwtig yn gynharach ar y daith ofal wedi bod o gymorth, yn cynnwys yr ymlyniad a'r berthynas (anodd) gyda'r sibling."* IRO

## Plentyn 46

Roedd y baban hwn yn un o ddau o blant a dynnwyd oddi wrth eu rhieni oherwydd cam-drin corfforol. Roedd gan y fam a'r tad berthynas dreisgar a ffrwydrol. Bu'r ddau riant ar Gofrestr Amddiffyn Plant eu hunain pan oedden nhw'n blant.

Mabwysiadu oedd y Cynllun a gyflwynwyd i'r llys, fodd bynnag, ni fu'n bosibl dod o hyd i deulu a fyddai'n mabwysiadu'r ddau gyda'i gilydd felly newidiwyd y cynllun i fod yn un gofal maeth hirdymor a diddymwyd y Gorchymyn Lleoli wedi hynny.

Methodd y lleoliad maeth cyntaf a fwriadwyd i fod yn barhaol oherwydd aeth y gofalydd yn sâl ac felly rhaid oedd trefnu ail lleoliad maeth hirdymor.

Ni sylweddolwyd yn llwyr yr effaith gafodd methiant sydyn y lleoliad maeth cyntaf ar lesiant emosiynol y plentyn hwn ar y pryd. Sylweddolir erbyn hyn y gellir olrhain ei broblemau ymddygiad parhaus gartref ac yn yr ysgol sy'n sylweddol i anhawster ymlyniad.

Fodd bynnag, mae'r plentyn wedi setlo gartref ac yn yr ysgol ac o'r diwedd yn dechrau gwneud cynnydd da yno.

*"Mae ymrwymiad y gofalydd maeth yn nodedig "* Swyddog Adolygu Annibynnol

Hefyd disgrifir yr ysgol yn '*ysgol gynhwysol wych*' (Y Swyddog Adolygu Annibynnol) o ran y cymorth sydd ar gael iddo yno.

- 3.57 **Canlyniadau plant fesul lleoliad cychwynnol a gynlluniwyd neu heb ei gyflawni**
- 3.58 Roedd yr 16 plentyn, oedd yn dal wedi'u lleoli gyda'r un gofalydd(gofalwyr) maeth hirdymor o adeg y Gorchymyn Gofal terfynol gan mwyaf, yn gwneud yn dda iawn erbyn adeg y dadansoddiad o'r ffeiliau achos 4-5 mlynedd wedi hynny. Mewn 14 o'r 26 achos, ystyriwyd bod y canlyniadau ar gyfer y plant yn gyffredinol positif ac mewn 2/16 o'r achosion, ystyriwyd eu bod yn gyffredinol gymysg (cymysgedd o'r positif a'r negyddol). Gan amlaf, mae'r plant y methodd eu lleoliad gofal maeth parhaol ar y cychwyn (6/9) wedi profi o leiaf un lleoliad aflwyddiannus arall. Mae tuedd bod y rhain sydd â chanlyniadau llai positif yn blant hŷn, gyda phrofiad o gam-drin ac esgeulustod eithafol neu gronig gyda phroblemau emosiynol / ymddygiadol amlwg a phroblemau ymlyniad ar adeg eu mynediad i ofal.
- 3.59 Ar gyfer y plant hynny (dim ond 2/5) roedd gofyn iddyn nhw aros gartref yn ôl y Cynllun a gyflwynwyd i'r llys ar adeg y Gorchymyn Gofal terfynol ac a oedd yn dal i fyw gartref 4-5 mlynedd rhwng Gorffennaf – Awst 2017, yr arwyddion ydy bod y

canlyniadau, yn achos un o leiaf, wedi bod yn rhai cyffredinol bositif. Yn yr achos arall, cymysg fu'r canlyniadau ac mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi dechrau gweithredu unwaith eto o ran yr esgeulustod a'r cam-drin emosiynol yr amheuir sy'n digwydd. O'r 3 phlentyn arall y methodd eu lleoliad gyda rhieni, cyflawnodd 2 blentyn iau, wedi hynny, ganlyniadau cyffredinol bositif mewn gofal maeth tra bod canlyniadau'r llall (hŷn o lawer) yn gyffredinol negyddol, gan dreulio peth amser gyda rhiant(rhieni) a byw'n annibynnol weithiau.

- 3.60 Mewn achosion lle lleolwyd plant gyda pherthynas i gael gofal ar y dechrau ac yna, wedi aros gyda nhw (mewn 10/14 o achosion), cyflawnodd 90% (neu 9/10) ganlyniadau cyffredinol bositif a chafwyd canlyniadau 10% (1/10) yn gyffredinol gymysg, sy'n ymddangos gan fwyaf oherwydd na lwyddwyd i ddiwallu anghenion iechyd emosiynol a llesiant er gwaetha lleoliad sefydlog a chariadus gan ddechrau tanseilio canlyniadau mwy positif. Yn y 4 achos lle roedd gofal gan berthynas wedi methu ar y cychwyn oherwydd cam-drin pellach neu ymatebion amhriodol gan ofalwyr, mae canlyniadau 2 o'r plant yn gyffredinol bositif a chanlyniadau 2 yn gyffredinol negyddol.
- 3.61 Os oedd plant wedi cael eu mabwysiadu'n llwyddiannus, nodwyd neu tybiwyd bod y canlyniadau'n rhai cyffredinol bositif ymhob achos bron. Roedd canlyniadau mwyafrif y plant na chyflawnwyd eu cynlluniau ar gyfer mabwysiadu wedi hynny wedi cael canlyniadau cyffredinol bositif mewn lleoliad gofal maeth amgen.
- 3.62 O'r 3 phlentyn â chynllun gofal preswyl (therapiwtig), dim ond un plentyn wedi hynny gafodd canlyniadau cyffredinol negyddol. Canlyniadau cyffredinol gymysg gafodd y 2 arall mewn unedau gofal preswyl eraill. Mae'r holl blant wedi cael profiad o un lleoliad o leiaf yn methu ond roedd canlyniadau'r plentyn a brofodd nifer o fethiannau yn gyffredinol negyddol.
- 3.63 **Methiant lleoliadau nas cynlluniwyd a'r ffactorau'n gysylltiedig â'r rhain**
- 3.64 Yn gyfan gwbl, roedd 60 o fethiannau lleoliad nas cynlluniwyd yn effeithio ar 26 o'r 79 (33%) o blant, a 2 ohonyn nhw yn siblingiaid. Ystyriodd yr ymchwilyr nodweddion gofalydd a phlant a'r ffactorau methiant lleoliad. Roedd y rhain yn gorgyffwrdd weithiau ac yn cynnwys y canlynol:

- 43 achos lle mai ymddygiad heriol oedd y prif neu un o brif achosion methiant lleoliad nas cynlluniwyd.
- 28 achos lle mai ffactorau gofalydd neu leoliad oedd yn debygol o fod yn brif neu un o'r achosion methiant lleoliad nas cynlluniwyd.
- 14 achos lle mai ffactorau gofalydd / lleoliad a phlentyn oedd yn debygol o fod yn un o'r dylanwadau sylweddol o fethiant lleoliad nas cynlluniwyd.
- 14 achos lle mai dim ond ffactorau gofalydd oedd yn arwyddocaol, er enghraifft, os oedd y gofalydd yn dymuno ymddeol neu am stopio am unrhyw reswm arall a doedd dim ffactorau sylweddol ynglŷn â'r plentyn.

3.65 Roedd ffactorau gofalydd neu leoliad o ran methiannau yn amrywiol ac yn cynnwys:

**O ran gofal maeth:**

- Gofalydd (gofalwyr) maeth yn dymuno ymddeol (5).
- Gofalydd maeth yn magu'r plant yn annigonol neu'n amhriodol a hynny'n effeithio ar y plentyn (7).
- Gofalydd maeth ddim am gario ymlaen am reswm arall (8).
- Honiad o gam-drin plentyn yn erbyn y gofalydd maeth (1).
- Gofalydd maeth yn sydyn yn cael diagnosis o salwch difrifol (2).

**O ran lleoliadau gartref gyda rhieni:**

- Yn y ddau achos (2) doedd y rhiant ddim yn gallu magu'r plentyn yn effeithiol.

**O ran lleoliadau gofal preswyl:**

- Dywedir bod yr uned wedi tan-amcangyfrif yr adnoddau angenrheidiol ar gyfer gofalu am y plentyn, ac wedi gofyn am gyllid ychwanegol gan yr awdurdod lleol ond wedi cael eu gwrthod (2).
- Yn uned wedi cau (1).
- Yr uned wedi terfynu'r lleoliad am reswm arall (1).

3.66 Roedd ffactorau plentyn o ran methiant lleoliadau yn amrywio hefyd ac weithiau'n rhai amryfal, ond yn cynnwys y canlynol gan amlaf:

- Sbectrwm ymddygiad o ychydig i heriol iawn – er enghraifft, ymddygiad treisgar, dianc, dadlau, ymddygiad rhywiolaidd iawn. Ystyriwyd bod yr ymddygiadau hyn yn deillio o gam-drin ac esgeuluso plentyn a phroblemau ymlyniad ond hefyd egin gyflyrrau plant megis Anhwylder y Sbectrwm Awtistig (AS) neu Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD)
- Ansicrwydd y plentyn ynglŷn â'r lleoliad (fel arfer oherwydd eu bod am fod gartref gyda rhiant(rhieni)).

- Hunan-niweidio neu amlygu trallod emosiynol arall.

3.67 Canlyniadau yn y pontio i adael gofal

3.68 Drwyddi draw, daeth 9 o'r garfan o 79 (11%) yn rhai oedd yn gadael gofal yn ystod y cyfnod o 4-5 mlynedd ar ôl y Gorchymyn Gofal terfynol ac erbyn Gorffennaf - Awst 2017. Roedd y plant hyn rhwng 14 ac 17 oed pan wnaed y Gorchymyn Gofal terfynol ac roedd yn cynnwys 4 ddyn ifanc a 5 merch ifanc. Cymysg oedd eu canlyniadau cyffredinol tra roedden nhw mewn gofal, gan gynnwys:

- 3 oedd â chanlyniadau cyffredinol bositif mewn gofal.
- 3 oedd â chanlyniadau cyffredinol gym ysg mewn gofal.
- 3 oedd â chanlyniadau cyffredinol negyddol mewn gofal.

3.69 Yn ystod y cyfnod pontio o ofal i adael gofal, yn gyffredinol roedd pobl ifanc â chanlyniadau cyffredinol negyddol mewn gofal yn fwy tebygol o barhau i gael neu i brofi cynnydd mewn canlyniadau negyddol. Roedd pobl ifanc â chanlyniadau cyffredinol gymysg neu bositif gofal yn fwy tebygol o brofi canlyniadau positif yn bennaf, wrth bontio i fod yn rhai oedd yn gadael gofal.

3.70 Dim ond 1 person oedd â chynllun i barhau i fyw gyda'u gofalydd maeth o dan drefniadau 'Pan Fydda i'n Barod'. Roedd y gofalydd wedi darparu gofal sefydlog, uchel ei ansawdd ar gyfer y person ifanc yn blentyn. Roedd y plentyn a'r lleoliad wedi cael cymorth gwasanaethau iechyd emosiynol a llesiant sylweddol i brosesu a gwella o drawma plentyndod. Ystyriwyd bod y plentyn hwn yn debygol o fynd i'r brifysgol o'r coleg, yn cymdeithasu'n dda, ei hunan-barch yn uchel a'i iechyd emosiynol a llesiant yn dda.

3.71 **Canlyniadau ehangach am y system gyfan o gyfweiliadau lled-strwythuredig gyda Gweithwyr Cymdeithasol, Rheolwyr Tîm a Swyddogion Adolygu Annibynnol (IRO)**

3.72 Ar ôl cyfweld, lle bo'n bosibl, pob Gweithiwr Cymdeithasol (neu Reolwr Tîm) a Swyddog Adolygu Annibynnol (IRO) pob plentyn am gynnydd y plentyn ar ôl y Gorchymyn Gofal terfynol, gofynnwyd iddyn nhw hefyd dri chwestiwn ehangach am y canlynol:

- Beth sydd, ar hyn o bryd, gan yr awdurdod lleol, y llys neu'r system gyfan a fyddai o gymorth i hwyluso canlyniadau cystal â phosibl ar gyfer plant sy'n dod i mewn i ofal?
- Pa welliannau y gellid eu gwneud i'r awdurdod lleol, y llys neu'r system gyfan i hwyluso canlyniadau cystal â phosibl ar gyfer plant sy'n dod i mewn i ofal?
- Beth sy'n arwyddocaol, os oes unrhywbeth, am rôl y Swyddog Adolygu Annibynnol? I ba raddau maen nhw'n cyflawni'r rôl hon yn llwyddiannus yn ymarferol?

**3.73 Beth sydd o help, ar hyn o bryd gan yr awdurdod lleol, y llys neu'r system gyfan a fyddai'n hwyluso cael canlyniadau cystal â phosibl ar gyfer plant sy'n dod i mewn i ofal?**

**3.74** Yr ymateb mwyaf cyffredin i'r cwestiwn hwn oedd y Braslun o Gyfraith Gyhoeddus (PLO) a ddiweddarwyd yn ddiweddar ac achosion achos yn targedu graddfeydd amser ar gyfer plant unigol a ystyriwyd eu bod yn gyffredinol wedi arwain at ostyngiad mewn gwneud penderfyniadau ar gyfer plant. Roedd mwyafrif y rhai a gyfwelwyd yn ystyried hyn yn ddatblygiad positif iawn er gwaethaf amheuan mewn rhai achosion (gweler paragraff 3.7 isod).

*“Mae cyflymder cynllunio'r llys a chynllunio'r parhad yn dda iawn (yn enwedig) ar gyfer plant iau” (Gweithiwr Cymdeithasol)*

*“Ffrâm amser o 26 wythnos – yn cynnig gweithdrefn gyflym a phenderfyniad ac yn atal y gwasanaeth rhag ymwneud am amser hir cyn symud y plant. Mae'n annog gweithredu cyflym os oes angen os nad ydy pethau'n hyblyg” (Gweithiwr Cymdeithasol)*

*“Mae'n golygu nad ydyn ni, erbyn hyn, yn ategu esgeulustod, rydyn ni'n gallu adnabod a gweithredu ynghynt fel na fydd plant yn gorfod ei wynebu am gyfnodau hir o amser” (Rheolwr Tîm)*

**3.75** Ymhlith ymatebion cyffredin eraill roedd:

- Ansawdd ac ymrwymiad gofalgwyr.
- Adolygiadau cyson unwaith bod plentyn wedi dod i mewn i ofal a chynnwys y plentyn cymaint â phosibl
- Mynediad buan i'r adnoddau a'r gwasanaethau sydd eu hangen i gynorthwyo'r plentyn.

- Perthynas dda gydag ysgolion sy'n deall anghenion plant sy'n derbyn gofal.
- Asiantaethau yn cydweithio i ddiwallu anghenion plant unigol
- Ymarfer gwaith cymdeithasol arbennig a modelau cyflenwi gwasanaeth sy'n pwysleisio gweithio rhyng-asiantaethol arbenigol a gwaith uniongyrchol gyda phlant a gofawyr sy'n hybu gwynnwch plentyn.
- Cymorth da (ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol) gan reolwyr sy'n adnabod y plant.
- Pontio effeithiol i adael gofal neu i wasanaethau oedolion.
- Cynnal gweithlu profiadol sefydlog o Weithwyr Cymdeithasol all ffurfio cysylltiadau sefydlog gyda phlant.

### 3.76 **Pa welliannau y gellid eu gwneud i'r awdurdod lleol, y llys neu'r system gyfan i hwyluso canlyniadau cystal â phosibl ar gyfer plant sy'n dod i mewn i ofal?**

Yr ymateb mwyaf cyffredin i'r cwestiwn hwn oedd mwy o ddewis o leoliadau yn enwedig lleoliadau gofal maeth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, yn bennaf er mwyn matsio'n well.

*"Y broblem fwyaf ydy cael lleoliadau digonol eu hansawdd"* (Swyddog Adolygu Annibynnol)

*"Mae gennym brinder o ofalwyr maeth sydd ddim yn help i allu matsio'n briodol"* (Rheolwr Tîm)

*"Peidio â lleoli plant ag ymddygiadau heriol mewn lleoliadau na all ddiwallu eu hanghenion "* (Rheolwr Tîm)

*"Ar hyn o bryd, gall plentyn newydd gael ei leoli gydag phlentyn arall oedd yn gymharol sefydlog ond o ganlyniad ddatblygu'n ansefydlog – gall hyn danseilio'r lleoliad"* (Gweithiwr Cymdeithasol)

*"Rhai lleoliadau yn cael eu gorlwytho"* (Gweithiwr Cymdeithasol)

### 3.77 Yr ymateb nesaf mwyaf cyffredin oedd y targed graddfa amser o 26 wythnos ar gyfer penderfyniadau llys, oedd yn cael ei ystyried i fod yn achosi rhai penderfyniadau i gael eu rhuthro neu'n rhy gaeth oherwydd diffyg hyblygrwydd ar gyfer rhai mathau penodol o benderfyniadau.

*"Gall yr egwyddor o fod ag un cynllun i bawb (one size fits all) gyfyngu'r ddifffawr, yn arbennig ar gyfer plant hŷn neu rieni sy'n ceisio ymatal rhag cymryd cyffuriau neu alcohol"* (Swyddog Adolygu Annibynnol – IRO)

*"Weithiau mae angen rhagor o amser arnom i asesu'r sefyllfa'n llawn, yn arbennig os ydy hi'n gymhleth neu'n cael ei chuddio"* (IRO)

*“Rwy'n dal i fod yn ansicr am yr amserlen 26 wythnos. Mae amserlen fer ar gyfer materion i'w datrys gan rieni'n fwy tebygol o arwain at wneud Gorchmynion Gofal terfynol”* (Rheolwr Tîm)

*“Rydyn ni angen mwy o hyblygrwydd yng ngraddfeydd amser y llysoedd i ganiatáu asesiadau mwy dwys yn arbennig ar gyfer plant anabl”* (Gweithiwr Cymdeithasol)

3.78 Roedd meysydd eraill gofnodwyd ar gyfer gwella'n cynnwys y rhain:

- Yr angen i flaenoriaethu (mwy) ar anghenion iechyd emosiynol plant a darparu mwy o gymorth therapiwtig.

*“(Rydyn ni angen) ffocysu ar hyn fel y norm i blant pan fyddan nhw'n dod o fewn gofal er mwyn caniatáu iddyn nhw ddeall eu sefyllfa”* (Gweithiwr Cymdeithasol)

*“Rydyn ni angen system therapiwtig wedi'i theilwra sy'n cydnabod ac yn deall ymlyniad”* (Rheolwr Tîm)

*“Mae angen mwy o ymwybyddiaeth o'r anghenion emosiynol anferth sydd gan rai o'r plant neu bobl ifanc hyn. Rhaid i ni ffocysu ar hyn yn hytrach na thargedau eraill er enghraifft i gwrdd â chyflawniad addysgol”* (Gweithiwr Cymdeithasol)

- Baich achosion rhesymol ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol.

*“Weithiau mae baich uchel o achosion yn golygu na allaf wneud fawr mwy nag ymweliadau statudol”* (Gweithiwr Cymdeithasol)

- Mwy a gwell ansawdd o waith uniongyrchol gan Weithwyr Cymdeithasol ac eraill gyda'r plant a'r gofalwyr.
- Mwy o adnoddau arbenigol i gynorthwyo plant a lleoliadau mor fuan â phosibl, er enghraifft mewn perthynas ag ymddygiad rhywiolaidd plentyn.

*“Mewn canlyniadau positif, y gofalydd yn ddiamau ydy'r ffactor critigol – rhaid i ni gael hynny'n iawn a pheidio â thanbrizio hyn. Rhaid i'r system sicrhau fod gofalwyr yn cael y cymorth priodol”* (IRO)

3.79 Roedd gwelliannau dymunol awgrymwyd gan lai, ond mwy nag un, o'r rhai holwyd yn cynnwys: gofalwyr maeth mwy arbenigol ar gyfer plant ag ymddygiad heriol; gofalwyr maeth i fod yn fwy 'ymwybodol o ymlyniad' a gallu cynorthwyo'r plentyn gyda materion ymlyniad; gwell cymorth i leoliadau gofal gyda pherthynas; gwell perthynas rhwng y gwasanaethau cyfreithiol a'r Gweithwyr Cymdeithasol; mwy o ystyriaeth (barhaus) o'r angen i hyrwyddo cyswllt positif gydag aelodau o'r teulu.

3.80 **Beth sy'n arwyddocaol, os o gwbl, am rôl y Swyddog Adolygu Annibynnol (IRO)? I ba raddau maen nhw'n llwyddo i gyflawni'r rôl hon? Ydyn nhw angen rhagor o bwerau neu 'lifers' i lwyddo i gyflawni'r rôl hon yn ymarferol?**

3.81 Yn ddi-ddadl, roedd Gweithwyr Cymdeithasol a Rheolwyr Tîm yn dweud eu bod yn gwerthfawrogi rôl a mewnbwn swyddogion IRO gyda phlant sy'n derbyn gofal. Yr agweddau oedd yn cael eu gwerthfawrogi'n arbennig oedd:

- Eu gallu i edrych yn annibynnol, camu nôl a herio penderfyniadau oedd wedi ei gwneud neu ar fin cael eu gwneud o ran y plentyn.

*“Golwg wrthrychol dda ar yr achos – yn dda i'r gweithwyr cymdeithasol gael rhywun i edrych yn wrthrychol ac i wirio eich bod ar y trywydd iawn”* (Gweithiwr Cymdeithasol)

- Eu cefnogaeth i blant unigol gyfleu eu barn ac i eiriol drostyn nhw.
- Eu gallu ambell dro i roi cymorth i'r teulu ehangach am eu hawliau ac am y prosesau.
- Eu gallu ambell dro i hyrwyddo neu gynorthwyo mynediad cyflym(ach) at adnoddau ar gyfer plentyn.

Roedd llawer o Reolwyr Tîm yn gwerthfawrogi fel roedd y rôl wedi ei hatgyfnerthu drwy ddeddfwriaeth ddiweddar, gan gynnwys yn arbennig ddisgwyliadau mwy ar gyfer cyswllt rheolaidd rhwng yr IRO a'r plant mewn gofal.

3.82 Fodd bynnag, roedd llawer o Weithwyr Cymdeithasol, Rheolwyr Tîm a Swyddogion Adolygu Annibynnol (IROs) eu hunain yn disgrifio sut gallai gweithredu'r rôl amrywio o un IRO i'r llall neu o un awdurdod lleol i'r nesaf. Gellid ystyried hyn fel rhywbeth positif, er enghraifft o ran cwrdd â gofynion ac amgylchiadau plant unigol, ond hefyd, efallai i raddau llai, yn arwain rhai Gweithwyr Cymdeithasol a Rheolwyr Tîm i awgrymu mwy o gysondeb yn y rôl.

*“Mae'n ychydig o hap a damwain. Rhai'n ymwneud yn llawn, eraill ddim. Rwy'n teimlo dylai fod yna fwy o arweiniad i sicrhau cysondeb gan gynnwys gwirio fod cynlluniau yn eu lle ac yna dilyn y plentyn”* (Gweithiwr Cymdeithasol)

*“Gallaf weld fod yna ddulliau gwahanol o fynd ati mewn gwahanol awdurdodau – rhai'n fwy annibynnol. Mae yna statws gwahanol iddyn nhw”* (Rheolwr Tîm)

- 3.83 Roedd llawer IRO yn credu fod eu rôl yn gallu cael eu cyfaddawdu ar adegau oherwydd baich trwm o achosion.

*“Rhwng adolygiadau, dylen ni gael mwy o rôl i wirio cynnydd, trafod y plentyn â'r gweithiwr cymdeithasol ayb. ond mewn gwirionedd, does ganddon ni ddim amser. Rydyn ni'n rhy brysur yn cynnal yr adolygiadau eu hunain”* (IRO)

*“Dylem gael llonydd i wneud ein swydd yn iawn h.y. ffocysu ar adolygiadau ond yn cael caniatâd i ymweld (rhwng y rhain)”* (IRO)

- 3.84 Roedd rhai, ond nid y cyfan o'r Swyddogion Adolygu Annibynnol (IROs) a Rheolwr Tîm yn mynegi barn dylai IROs fod yn fwy o ran o'r broses llysoedd (lle gwneir y Gorchymyn Gofal terfynol) er mwyn sicrhau'r ddealltwriaeth orau posibl o'r amgylchiadau sy'n arwain i wneud y Gorchymyn Gofal terfynol a'r hyn y cytunwyd arno fel Cynllun Gofal terfynol.

*“Os bydd y swyddog IRO yn rhan o ddiwedd y trafodion, fe allan nhw sicrhau'r hyn ddywedwyd, gan y gall weithiau fod anghytuno rhwng yr hyn ddywed y teulu a'r hyn ddywed y gweithwyr am hyn. Dylem ychwanegu cam fel gall yr IRO ddod i'r gwrandawriad terfynol neu dderbyn y trawsgrifiad terfynol”* (IRO)

*“Anaml bydd y swyddogion IRO yn derbyn y Cynllun terfynol o'r Llys a chredaf y dylen nhw. Anaml chwaith byddwn ni'n cael cysylltiad gyda Gwarcheidwad (y plentyn) ond mae angen trosglwyddiad addas pan fydd prosesau'r llys yn dod i ben”* (IRO)

- 3.85 Roedd canfyddiad ymhlith rhai Rheolwyr tîm a swyddogion IRO na allai IROs weithredu'n gwbl annibynnol tra bo nhw'n gyflogedig o fewn yr awdurdod lleol.

*“Rwy'n teimlo byddai'n well tasen nhw'n annibynnol o'r awdurdod lleol neu mewn rhyw ffordd arall fod â barn annibynnol am ymarfer gweithwyr cymdeithasol”* (Rheolwr Tîm)

Mewn un maes, disgrifiwyd y gwasanaeth IRO fel un wedi ei 'contractio allan' o'r awdurdod lleol ac roedd hyn yn cael ei weld yn hynod o bositif.

*“Golyga hyn y gall yr IRO gamu tu allan i'r materion a'r pwysau eraill a bod yn hynod wrthrychol ac yn canolbwyntio'n fwy ar y plentyn* (Rheolwr Tîm)

- 3.86 O ran y cwestiwn digonolrwydd y pwerau a lifers sy'n bodoli (i drafod materion neu herio penderfyniadau wneir gan awdurdod lleol), roedd y mwyafrif o'r rhai gafodd eu cyfweld yn credu fod ar hyn o bryd brosesau eglur ar gyfer codi a datrys materion yn eu meysydd. Roedd rhai, ond nid y cyfan o'r swyddogion IRO yn credu fod angen rhagor o lifers gan nad ydy'r rhai cyfredol ddim yn eu galluogi bob amser i herio'n effeithiol. "*Ar y funud, mae'n golygu cynnal trafodaethau*" (IRO)

#### 4. Casgliadau

- 4.1 Mae'r astudiaeth hon yn rhoi'r canfyddiadau am daflwybrau plant a phobl ifanc a'r hyn sy'n gweithio iddyn nhw yn y tymor canolig: 4 i 5 mlynedd ar ôl gwneud yr Gorchymyn Gofal terfynol.
- 4.2 Mae'n awgrymu fod llawer o blant a phobl ifanc yn gwneud yn dda mewn gofal, gan gynnwys mewn rhai amgylchiadau lle nad ydy'n bosibl cyflawni'r Cynllun Lleoli sydd wedi ei amlinellu yn y llys yn ystod y Gorchymyn Gofal terfynol. Yr hyn sy'n arbennig o nodedig ydy'r canfyddiadau cymharol bositif o ran yr is-sampl o'r canlyniadau addysgol, cymdeithasol, iechyd corfforol a rhywiol gyflawnwyd drwy gymorth gofawyr, Gweithwyr Cymdeithasol, ysgolion a gwasanaethau cymorth eraill.
- 4.3 Mae'r astudiaeth hefyd yn cadarnhau rhai canfyddiadau allweddol o ymchwil blaenorol am y ffactorau sy'n gysylltiedig â chanlyniadau gwell neu waeth i blant a phobl ifanc gyda Gorchymyn Gofal terfynol. Er enghraifft bod:
- Plant sy'n dod mewn i ofal yn ieuengach yn gyffredinol yn cael gwell canlyniadau (Baginsky et al., 2017).
  - Maint y gamdriniaeth neu esgeulustod cronig mae plant wedi cael profiad ohono'n ddangosydd cryf o ganlyniadau (negatif) mewn gofal (Baginsky et al., 2017). Dangosyddion eraill o ganlyniadau negyddol a gofnodir ydy: cyswllt niweidiol parhaus â rhiant naturiol (Sinclair et al., 2004); mynediad llai aml neu ymatebol i gymorth (Wilkinson, 2017); a methiant lleoliad cynnar 'parhaol' (Wilkinson, 2017).
  - Ffactor allweddol cysylltiedig â chanlyniadau da i blant mewn gofal ydy gofal o ansawdd mewn lleoliad maethu, neu gan berthynas neu ofal preswyl (The Hadley Centre and Coram Voice, 2015; Baginsky et al., 2017).

- Nodweddion sylfaenol gofal o ansawdd da ydy sefydlogrwydd, cartrefi cynnes llawn magwraeth; gofal ymroddedig, rhagweithiol a chynhwysol; a thrin y plentyn fel un o blant y teulu (The Hadley Centre & Coram Voice, 2015). Awgryma adolygiad diweddar o dystiolaeth wnaed gan Wilkinson et al., (2017) fod gofal gan berthynas (yn ogystal a gofal maethwyr) hefyd angen mwy na sgiliau da o fagu plant i ddarparu gofal dwys y bydd rhai plant ei angen. Maen nhw hefyd angen gallu adnabod yr ymddygiadau ymdopi amddiffynnol mae'r plentyn wedi ei ddatblygu a sut i gefnogi'r plentyn neu berson ifanc i allu symud ymlaen oddi wrth y rhain. Mae ymchwilyr blaenorol yn ystyried fod cymorth i ofalwyr yn allweddol i alluogi gofalwyr i fagu plant yn therapiwtig os ydyn nhw wedi cael eu cam-drin (Wilkinson, 2017).
- Plant sydd ag ymddygiadau mwy heriol (yn codi'n bennaf o gael profiad o gamdriniaeth ac anawsterau cysylltiol emosiynol ac ymlyniad) yn debygol o achosi strès i ofalwyr maeth a rhai sy'n berthnasau (Randle et al., 2012). Awgryma ymchwil sy'n bodoli fod gofalwyr maeth sy'n teimlo dan straen yn llai tebygol o ffurfio ymlyniad positif gyda'r plant ac i'w magu'n effeithiol (Farmer et al., 2005; Howe, 2005; Lindheim and Dozier, 2007)).
- Risg uchel o ail-gamdriniaeth neu esgeulustod neu ganlyniadau salach i blant sy'n dychwelyd adref i fyw gyda'i rhieni (Sinclair et al., 2005).

4.4 Mae'r astudiaeth yn herio rhai rhagdybiaethau sydd eisoes yn bodoli, er enghraifft, mai dim ond cyfran fechan o blant mewn gofal sydd ag anabledd – mae ein hastudiaeth yn awgrymu fod gan hyd at draean anabledd adnabyddadwy sy'n debygol o effeithio'n negyddol yn fwy arbennig yn eu canlyniadau addysgol neu gymdeithasol.

4.5 Yn olaf, mae'r astudiaeth y dynodi rhai heriau arwyddocaol ar gyfer plant mewn gofal yng Nghymru, yn arbennig mewn perthynas â'r canlynol:

- Y tebygrwydd bydd llawer, os nad y cyfan, o'r plant yn dod i gysylltiad â thrawma ac aflonyddwch plentyndod mewn patrymau ymlyniad cynnar sy'n debygol yn eu tro o effeithio ar ansawdd eu perthynas ddiweddarach ac ar allu'r plentyn i ffurfio ymlyniad iach gyda'r rhieni dirprwyol.

- Iechyd a lles meddyliol y plentyn – yn arbennig o ran materion sy'n bur debygol o godi i lawer o blant drwy fod mewn cysylltiad â thrawma, gan gynnwys camdriniaeth ac esgeulustod; anawsterau ymlyniad; galar neu wahanu yn ystod eu plentyndod cynnar. Gall anghenion emosiynol iechyd a lles parhaus danseilio hyd yn oed y canlyniadau positif (megis addysg) a/neu lleoliadau mewn gofal.
- Canlyniad cael cartref parhaol o ansawdd da i blant mewn grwpiau sibling (yn arbennig o arwyddocaol gan fod 62% o blant â Gorchymyn Gofal terfynol yn 2012-2013 yn rhan o grŵp sibling oedd o leiaf yn 2 blentyn), a phlant hŷn a phobl ifanc oedd yn debygol o fod wedi bod mewn cysylltiad cronig gyda chamdriniaeth neu esgeulustod ac ymddygiad a ystyrid yn fwy heriol i ofalwyr.
- Cynnal lleoliadau 'am byth' diogel, llawn magwraeth, i blant – yn arbennig lleoliad gofal maeth neu ofal gan deulu lle mae'r gofalwyr wedi rhoi ymrwymiad ar y dechrau i ddarparu cartref hir dymor. Canfu ymchwil blaenorol bod y 'lludded tosturi' y gall gofalwyr weithiau ei deimlo o ganlyniad i ofalu'n ddyddiol am blant ag anghenion cymhleth yn achosi rhwystr rhag iddyn nhw bellach wneud cyswllt iach gyda'r plentyn (Ottaway et al., 2016).

## 5. Argymhellion

- 5.1 Mae'r astudiaeth hon yn rhoi cefnogaeth gref ac yn canfod peth tystiolaeth i'r effaith bositif sydd gan ddatblygiadau polisi presennol a diweddar i gynllun i wella canlyniadau ar gyfer plant mewn gofal a gadawyr gofal, gan gynnwys er enghraifft: cymorth i blant sy'n derbyn gofal mewn addysg.
- 5.2 Mae hefyd yn awgrymu efallai bydd angen gwelliannau pellach i sichrau'r canlynol yn benodol:
- Bod anawsterau gwybyddus neu rai tebygol ymlyniad plentyn yn cael eu cydnabod yn fwy ffurfiol o ran comisiynu a darparu lleoliad(au) gofal amgen a chymorth ehangach ar plant mewn gofal. Mae'n annhebygol y bydd y math hwn o gymorth yn cael ei ddarparu drwy'r gwasanaethau arbenigol traddodiadol megis y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed.
  - Y caiff anghenion iechyd a lles emosiynol plant mewn gofal eu trin mewn dull mwy rhagweithiol, gan gydnabod y bydd llawer mewn gwirionedd angen rhyw fath o gymorth therapiwtig i'w hadfer ar ôl eu profiadau o drawma, profedigaeth/galar a gwahanu, ac i ymdrin â'u hanawsterau ymlyniad, pa un ai fydd hyn yn cael ei ddarparu drwy leoliad therapiwtig a/neu weithio gyda'r plentyn.
  - Bod cynnydd wedi bod mewn argaeledd lleoliadau gofal hir-dymor o ansawdd da, fydd, yn eu tro, yn sicrhau bod y plentyn yn cael lleoliad amserol am byth (gan gynnwys y tro cyntaf) sy'n fwy tebygol o gwrdd â'u hanghenion.
  - Y caiff plant gyda rhyw fath o anabledd, yn arbennig anableddau heb eu cydnabod yn yr ystadegau swyddogol ond, serch hynny, sy'n debygol o effeithio ar eu datblygiad cymdeithasol ac addysgol, eu cynorthwyo mewn dull rhagweithiol.
  - Y caiff plant sy'n dychwelyd adref neu i fyw dan ofal perthynas eu diogelu rhag camdriniaeth neu esgeulustod a chaiff y plant yn y lleoliadau hyn, yn ogystal â'r teuluoedd sy'n darparu gofal ar eu cyfer, gymorth ar lefel uchel i gyflawni canlyniadau da.

## 6. Cyfeiriadau

Baginsky, M., Gorin, S., Sands, C. (2017) *The fostering system in England: Evidence Review*, London, Department for Education (Yr Adran dros Addysg)

Biehal, N. et al (1995) *Leaving care in England: A research perspective*. Children and Youth Services Review, 16 (3/4) pp 231-154.

Biehal, N., Sinclair, I. and Wade, J. (2015) Reunifying abused or neglected children: Decision-making and outcomes. *Child Abuse and Neglect* 49, 107–118

Brandon, M., Glaser, D., Maguire, S., McCrory, E. et al (2014) *Missed opportunities: indicators of neglect – what is ignored, why and what can be done?* Llundain: Department for Education (Yr Adran dros Addysg).

Farmer, E., Lipscombe, J. and Moyers, S. (2005) Foster carer strain and its impact on parenting and placement outcomes for adolescents. *British Journal of Social Work* 35, 237–253

Farmer, E. and Lutman, E. (2012) *Effective Working with Neglected Children and Their Families: Linking Interventions to Long-term Outcomes*. Llundain: Jessica Kingsley Publishers (cyhoeddwy)

Gypen, L., Vanderfaeille, J., De Maeyer, S., Belenger, L. and Van Holen, F. (2017) Outcomes of children who grew up in foster care: Systematic-review. *Children and Youth Services Review* 76, 73–84.

